

## Agenda

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Cyhoeddus Bwrdd CNC
Dyddiad y cyfarfod:	Dydd Mercher, 17 Gorffennaf 2024
Amser y cyfarfod:	14:00 – 16:15
Lleoliad:	Trwy gyfrwng Microsoft Teams

Amser	Eitem
14:00	<b>Eitem 1. Dechrau'r cyfarfod</b>
5 munud	<ul style="list-style-type: none"><li>• Croeso</li><li>• Datganiadau o fuddiant</li><li>• Eglurhad am drefn y cyfarfod</li></ul> <p>Noddwr a chyflwynydd: Yr Athro Steve Ormerod (Dirprwy Gadeirydd)</p> <p><b>Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiant</b></p>
14:05	<b>Eitem 2. Adolygu'r cofnodion a chofnod y camau gweithredu</b>
5 munud	<p>2A. Adolygu cofnodion y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 23 Mai</p> <p>2B. Adolygu cofnod y camau gweithredu cyhoeddus</p> <p>Noddwr a chyflwynydd: Yr Athro Steve Ormerod (Dirprwy Gadeirydd)</p> <p><b>Crynodeb: CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a chofnod y camau gweithredu</b></p>
14:10	<b>Eitem 3. Diweddariad gan y Cadeirydd</b>
5 munud	<p>Noddwr a chyflwynydd: Yr Athro Steve Ormerod (Dirprwy Gadeirydd)</p> <p><b>Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd</b></p>
14:15	<b>Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr</b>
15 munud	<p>Noddwr a chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr</p>

---

**Crynodeb: NODI y sefyllfa bresennol, a diweddaru'r Bwrdd ar weithgareddau allweddol**

**Cyfeirnod y Papur: 24-07-B10**

---

**14:30**

**Eitem 5. Diweddaru adroddiadau pwyllgorau a fforymau**

**20 munud**

Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion pwyllgorau

- Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg – 4 Mehefin  
**Cyfeirnod y Papur: 24-07-B11**
  - Y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth
  - Y Pwyllgor Cyllid – 13 Mehefin  
**Cyfeirnod y Papur: 24-07-B12**
  - Y Pwyllgor Rheoli Risg Llifogydd  
**Cyfeirnod y Papur: 24-07-B13**
  - Y Pwyllgor Ystad Tir
  - Y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid – 6 Mehefin  
**Cyfeirnod y Papur: 24-07-B14**
  - Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig – 28 Mehefin
- 
- Fforwm Rheoli Tir Cymru
  - Fforwm Pysgodfeydd Cymru
  - Fforwm Rheoli Dŵr Cymru
  - Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru

**Crynodeb: NODI y diweddariadau gan bwyllgorau'r Bwrdd a fforymau CNC, y tu fewn a'r tu allan, a'r cyfarfodydd a gynhaliwyd**

---

**14:50**

**Eitem 6. Adroddiad Perfformiad Cyllid**

**15 munud**

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

**Crynodeb: CYMERADWYO y sefyllfa ariannol ddiweddaraf**

**Cyfeirnod y Papur: 24-07-B15**

---

**15:05**

**Eitem 7. Dangosfwrdd perfformiad y cynllun busnes ac adroddiad diwedd blwyddyn perfformiad mewnol 2023-2024**

**20 munud**

Noddwr a chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

---

---

Yn bresennol: Sarah Williams, Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a Swyddog Rheoli Portffolios; Sue Ginley, Prif Gynghorydd Arbenigol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad

**Crynodeb: CYMERADWYO dangosfwrdd perfformiad y cynllun busnes ac adroddiad diwedd blwyddyn perfformiad mewnol 2023-2024**

Cyfeirnod y papur: 24-07-B16

---

15:25 **Egwyl**

15 munud

---

15:40 **Eitem 8. Adroddiad blynyddol llesiant, iechyd a diogelwch 2023-2024**

10 munud

Noddwr a chyflwynydd: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol

**Crynodeb: CYMERADWYO adroddiad blynyddol llesiant, iechyd a diogelwch 2023-2024**

Cyfeirnod y papur: 24-07-B17

---

15:50 **Eitem 9. Unrhyw fater arall**

5 munud

---

15:55 **Diwedd y cyfarfod**

---

15:55 **Holi ac ateb cyhoeddus**

20 munud

---

16:15 **Diwedd y cyfarfod cyhoeddus**

---

# Cofnodion heb eu cadarnhau

<b>Enw'r cyfarfod:</b>	<b>Cyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru – Cyfarfod Cyhoeddus</b>
<b>Lleoliad:</b>	Canolfan y Dechnoleg Amgen, Machynlleth, a Microsoft Teams
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	23 Mai 2024
<b>Aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol:</b>	Syr David Henshaw, Cadeirydd Clare Pillman, Prif Weithredwr Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd Geraint Davies Yr Athro Calvin Jones Lesley Jones Yr Athro Rhys Jones Mark McKenna Kath Palmer Helen Pittaway Dr Rosie Plummer
<b>Aelodau'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:</b>	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (Teams) Victoria Rose-Piper, Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Busnes ac Adfywio/Pennaeth Trawsnewid Busnes, yn dirprwyo ar ran Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
<b>Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol:</b>	Phil Williams, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (pob eitem) Rob Bell (Pennaeth Cyllid) – eitem 6 (Teams) Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir, eitem 7 Dawn Thompson, Tîm Cynllunio Hamdden Ystadau, eitem 7

<b>Sylwedyddion CNC yn bresennol:</b>	Bhuvanewari Marrisudi, Prentis Bwrdd Gavin Bown, Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth Cymru Meinir Wigley, Arweinydd Tîm Cyfathrebu Integredig Elsie Grace, Pennaeth Datblygu Masnachol Cynaliadwy
<b>Sylwedyddion cyhoeddus a oedd yn bresennol:</b>	Polly Ernest Elizabeth Mullan Rhys Llywelyn Jim Ralph Delyth Lloyd Matt Ward Sian Roberts Kim Waters, Undeb Afonydd Cymru Aelodau ychwanegol o'r cyhoedd
<b>Ymddiheuriadau:</b>	Dr Pete Fox
<b>Ysgrifenyddiaeth:</b>	Natalie Williams, Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd ac Arweinydd Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Jocelyn Benger, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
<b>Datganiadau o fuddiant:</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dr Rosie Plummer - Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – cysylltiadau eang â CNC gan gynnwys cynllunio, dynodi tirwedd ac amddiffyniadau gan gynnwys afonydd ACA, parthau morol, derbynnydd grantiau amrywiol a chydweithredwr; Ymddiriedolwr Plantlife; Cyfarwyddwr Plantlife Biodiversity Enhancements Ltd</li> <li>• Yr Athro Steve Ormerod – Cadeirydd y Grŵp Cyngori ar Wyddoniaeth ac Aelod o'r Bwrdd Marchnadoedd Amgylcheddol newydd; Cadeirydd y Grŵp Cyngori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod; Is-lywydd yr RSPB</li> <li>• Geraint Davies – Mentor gyda Cyswllt Ffermio; Aelod Cyswllt o Ganolfan Ymchwil Ucheldir Pwllpeiran</li> <li>• Yr Athro Rhys Jones – rhan o brosiect ymchwil wedi'i ariannu gyda Phrifysgol Coventry a fydd yn archwilio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy</li> <li>• Yr Athro Calvin Jones – Ysgol Fusnes Caerdydd yn cael ei chyflogi gan Lywodraeth Cymru i edrych ar fodolau ariannu ar gyfer môr-lynnoedd llanw posibl yng Nghymru</li> </ul>

- 
- Mark McKenna – Down to Earth, datganiad o ddiddordeb yng nghynllun Caernws
- 

## Eitem 1. Agor y cyfarfod

1. Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, a aeth ati i groesawu pawb ac egluro trefn y cyfarfod. Nodwyd datganiadau o fuddiant ac ymddiheuriadau fel uchod.
2. Darllenodd y Cadeirydd ddatganiad am Safle Tirlenwi Withy hedge yn Sir Benfro, gan gydnabod pryderon y cyhoedd lleol ynghylch y materion ar y safle. Mae hyn ynghlwm wrth y cofnodion hyn yn Atodiad A.
3. Darllenodd y Cadeirydd ddatganiad ar Ganolfannau Ymwelwyr, gan gydnabod lefel diddordeb y cyhoedd yn y sefyllfa bresennol. Roedd hyn yn mynd i'r afael â rhywfaint o'r ohebiaeth a gafwyd am y Canolfannau Ymwelwyr a'r eitemau a godwyd yn yr ohebiaeth. Mae hyn ynghlwm wrth y cofnodion hyn yn Atodiad B.

## Eitem 2. Adolygu'r cofnodion a'r cofnod o gamau gweithredu

### Eitem 2A. Adolygu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth

4. Adolygwyd a chytunwyd ar gofnodion cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd a gynhaliwyd ar 21 Mawrth.

### Eitem 2B. Adolygu'r cofnod o gamau gweithredu

5. Adolygwyd a nodwyd y cofnod o gamau gweithredu.

## Eitem 3. Diweddariad gan y Cadeirydd

6. Rhoddodd y Cadeirydd y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd am yr wythnosau prysur diwethaf, gan nodi nifer y materion cyfredol sy'n parhau.
7. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd a Materion Gwledig newydd ar waith dalgyrch Teifi.

## Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

8. Rhoddodd y Prif Weithredwr y newyddion diweddaraf am eitemau yn ychwanegol at yr adroddiad ysgrifenedig.
9. Nodwyd bod etholiad cyffredinol wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer 4 Gorffennaf. Byddai CNC yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad yn enwedig mewn perthynas â'r cyhoeddiad am Brosiect Gwy Uchaf a digwyddiad CNC yn y Senedd. Byddai CNC yn cael cyngor i gyrrff hyd braich ar ymddygiad yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad a byddai hyn yn cael ei ddsbarthu i staff.

10. Roedd timau CNC wedi bod yn gweithio'n galed i gefnogi cymunedau a gwasanaethau brys yn ystod y cyfnod diweddar o law trwm iawn.
11. Codwyd y digwyddiad o dân a llygredd yn ffatri Synthite yn yr Wyddgrug. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau yr wybodaeth ddiweddaraf am y digwyddiad. Nodwyd y sylw yn y cyfryngau. Eglurwyd bod hwn yn safle COMAH (Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr) a oedd yn cael ei reoleiddio ar y cyd gan CNC a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Canfuwyd pysgod marw yn afon Alun a mynegwyd pryderon ynghylch presenoldeb fformaldehyd, felly sefydlwyd grŵp ymateb i ddigwyddiad Y Drefn Reoli Aur a chymerwyd camau priodol. Gwnaed gwaith i fonitro afon Dyfrdwy a chanfuwyd olion lefel isel iawn o fformaldehyd. Bu CNC yn gweithio gyda'r cwmni dŵr i sicrhau dŵr yfed diogel. Byddai CNC yn cadeirio'r grŵp adfer a fyddai'n cynnwys gwersi a ddysgwyd.
12. Nododd aelodau'r Bwrdd y diweddariadau parhaus a gafwyd a mynegi eu gwerthfawrogiad o gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau byw.
13. Roedd y Gweinidog Newid Hinsawdd a Materion Gwledig wedi gwneud datganiadau ar ei flaenoriaethau ac ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Roedd y cyhoeddiad am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn disgrifio'r cyfnod paratoi ar gyfer y Cynllun a fyddai'n cael ei weithredu yn 2025, gyda'r cyfnod pontio arfaethedig yn dechrau yn 2026. Byddai'r oedi o flwyddyn cyn dechrau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ymrwymadau allweddol gan gynnwys: adolygiad ar sail tystiolaeth i atafaelu carbon o fewn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy; ymarfer cadarnhau data gyda ffermwyr ar gynefinoedd a gorchudd coed; nodi a datblygu camau gweithredu cydweithredol pellach gyda golwg ar gyflwyno'r rhain cyn gynted â phosibl; sefydlu bord gron Gweinidogol gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatrys materion sy'n peri pryder. Byddai CNC yn ymwneud â llawer o'r elfennau hyn.
14. Mynychodd yr Athro Steve Ormerod a'r Prif Weithredwr gyfarfod y Cyrff Cadwraeth Natur Statudol a'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur yng Nghaeredin. Rhoddodd yr Athro Steve Ormerod, fel aelod o'r Cydbwyllgor Cadwraeth Natur, ddiweddariad i'r Bwrdd ar y cyfarfod, a ddaeth â'r partïon ynghyd i ystyried a rhannu gwybodaeth am y materion cyffredin a wynebier ar draws yr amgylchedd. Roedd y mater o sylwedd i'w drafod yn ymwneud â'r ymrwymiad 30erbyn30, sef sicrhau bod 30% o dir a môr y byd wedi'i ddiogelu a'i reoli'n effeithiol ar gyfer bioamrywiaeth erbyn 2030. Rhannwyd cuddwybodaeth o bob gwlad a chafwyd trafodaethau defnyddiol a chynhyrchiol iawn.
15. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu y newyddion ddiweddaraf i'r Bwrdd am ei phresenoldeb yng nghyfarfod Asiantaethau Diogelu'r Amgylchedd Ewropeaidd yn Bratislava. Roedd hwn yn gyfle gwych i weithio gyda gwledydd eraill, gydag agenda a oedd yn berthnasol iawn i drafodaethau CNC ynghylch trosglwyddiad cyfiawn ar y newid yn yr hinsawdd. Trafodwyd materion ariannol hefyd ynghylch sut yr ariannwyd cadwraeth a gwarchodaeth natur, rhannu arferion da a sut y gellid bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.
16. Byddai CNC yn cael ei gynrychioli yng nghyfarfod y Cyrff Cadwraeth Natur Ewropeaidd yn Rhufain, gan arwain cyflwyniadau ar newid trawsnewidiol i fyd natur.

17. Nododd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr adroddiad gan gwestiynu'r cyfleoedd i brif ffrydio'r gwersi a ddysgwyd, yn enwedig ar ddatblygiadau datgarboneiddio, gan ystyried enghraifft HyNet a'r datblygiadau technegol eraill yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod disgyblaeth dda ar waith ar gyfer datblygu gwersi a ddysgwyd, gan gynnwys ynghylch y mathau o dimau technegol y byddai eu hangen gyda'r cynnydd a ragwelir mewn ynni adnewyddadwy.

## Eitem 5. Adroddiadau diweddarau gan y pwyllgorau a'r fforymau

18. Rhoddodd Kath Palmer, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ers y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth. Trefnwyd archwiliad dwfn o'r Cyfrifon Blyneddol ar gyfer 24 Mai a byddai'r cyfarfod llawn nesaf yn cael ei gynnal ar 4 Mehefin.

19. Rhoddodd yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth yr wybodaeth ddiweddaraf am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai yng Nghaerdydd. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys: cynnydd ar Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025; gwaith mapio Cymru Gyfan ar dirweddau ledled Cymru; diweddariad ar brosesau casglu tystiolaeth am y Parc Cenedlaethol newydd posibl; prosiect arddangos Teifi a sut y byddai'r data a'r wybodaeth ar gael i'r cyhoedd; diweddariad ar yr argymhellion gan Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru. Gwnaeth yr Athro Rhys Jones, fel aelod o'r Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol, sylw ar bwysigrwydd meddwl drwy'r cysylltiadau rhwng Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a gweithgareddau eraill, er mwyn pwysleisio pwysigrwydd yr angen am newid drwy gysylltu â meysydd megis dirywiad mewn bioamrywiaeth ac effaith newid hinsawdd ar les pobl.

20. Rhoddodd Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Ystyriwyd y perfformiad a blaenoriaethau ariannol diwedd blwyddyn ar gyfer 2024/25. Cafwyd trafodaeth fanwl ar yr eitemau ar gyfer cymeradwyaeth ariannol yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy, plannu cydadferol, a blaenoriaethau ar gyfer Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Cafwyd diweddariad gan Swyddfa Rheoli'r Rhaglen. Trafodwyd metrigau'r Cynllun Busnes Blyneddol hefyd. Trefnwyd y cyfarfod nesaf ar gyfer 13 Mehefin i adolygu'r Cyfrifon Blyneddol.

21. Rhoddodd Geraint Davies, a oedd yn dirprwyo ar ran Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ebrill. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Amlygwyd yr ymweliad safle defnyddiol â Gwastadeddau Gwent. Ystyriwyd yr Adroddiad Partneriaethau Lleol a chymeradwywyd y byddai'r Pwyllgor Cyllid yn goruchwyllo'r prosiect dilynol. Caeodd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd y Rhaglen Weithredu Adfer ac Adolygu Llifogydd yn ffurfiol. Cafwyd diweddariadau ar Reoli Perygl Llifogydd a Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd. Canmolwyd y tîm am eu hymdrechion i weithio i sicrhau darpariaeth yn ystod blwyddyn anodd gyda phwysau sylweddol.

22. Rhoddodd yr Athro Calvin Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Ystad Tir, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar waith ers y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror. Parhaodd



prosiect diogelwch Gwlad y Sgydau i symud ymlaen yn dda ar y cyd â'r Grŵp Diogelwch Ymwelwyr. Nodwyd bod rhai problemau o hyd ynghylch contractwyr a diogelwch a oedd yn cael eu rheoli drwy Gytgord Diogelwch y Diwydiant Coedwigaeth. Roedd yr incwm pren yn agos iawn at y rhagolygon. Byddai cyllideb eleni yn golygu bod modd rheoli risgiau allweddol, er y cydnabuwyd nad oedd hyn eto mewn cylch rhinweddol o fuddsoddiad yn Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Roedd trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cytundeb ariannu aml-flwyddyn. Darparwyd diweddariad ar ail-stocio, a chadarnhawyd nad oedd unrhyw risg o unrhyw ddileu pellach. Trefnwyd y cyfarfod nesaf ar gyfer 18 Gorffennaf.

23. Rhoddodd Mark McKenna, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ynghylch y gwaith a wnaed ers y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth. Byddai'r cyfarfod nesaf ar 6 Mehefin a byddai'n cynnwys cymysgedd o eitemau strategol ac eitemau i'w cymeradwyo, ynghyd â diweddariad ar CNC2030 a goblygiadau'r Cynllun Busnes.
24. Rhoddodd Dr Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig ddiweddariad i'r Bwrdd ynghylch y gwaith a wnaed ers y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Chwefror. Trefnwyd ymweliad safle ar gyfer 11 Mehefin, a threfnwyd y cyfarfod ffurfiol nesaf ar gyfer 28 Mehefin. Hysbyswyd nifer o safleoedd i'w gwarchod y gallai fod angen eu penderfynu'n gyhoeddus. Parhaodd y gwaith ar y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig. Byddai'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig hefyd yn craffu ar ganlyniadau trafodaeth strategol y Bwrdd ar Amcan Llesiant 1 y Cynllun Corfforaethol: Mae natur yn gwella.
25. Rhoddodd yr Athro Rhys Jones, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru, ddiweddariad i'r Bwrdd. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Roedd cyfarfodydd yr is-grŵp ar Lygredd Amaethyddol hefyd wedi'u cynnal ac roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch yr adolygiad pedair blynedd o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol (Rheoliadau Amaeth). Mynegwyd pryderon ynghylch yr angen am fwy o eglurder ar delerau'r adolygiad a'r broses. Rhoddwyd cyflwyniad ar Adolygiad Maetholion CNC i'r Is-grŵp, a oedd yn cynnwys diweddariad ar y porth mapio rhyngweithiol a fyddai'n cael ei gyflwyno. Cafwyd adroddiad ar ymweliadau swyddogion mewn perthynas â'r Rheoliadau Amaeth, a nodwyd patrymau diddorol o ran cydymffurfedd. Gwnaeth Dr Rosie Plummer, fel sylwedydd yn y cyfarfod, sylwadau ar natur ddefnyddiol y trafodaethau a chymeradwyo hynny i weddill y Bwrdd.
26. Rhoddodd yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd. Ystyriwyd bod y papurau wedi'u darllen. Amlygwyd gwaith Fforwm Pysgodfeydd Cymru. Codwyd y ddatl barhaus ar gyflwr difrifol eogiaid a brithyllod y môr sy'n dirywio a chanlyniadau gwaith y Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod. Roedd y gwaith cychwynnol ar afon Wysg ar y gleisiaid yn ymddangos fel pe bai'n dangos mwy o risg o farwolaeth gyda llif dŵr isel ac amodau sychder, gan ddangos cysylltiad rhwng newid yn yr hinsawdd, ansawdd dŵr, a'r dulliau o reoli'r dirwedd. Byddai Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod yn ailymgynnull ym mis Gorffennaf. Amlygwyd y Gorchymyn Cyfyngu ar Rwydi ar afon Dyfrdwy. Nodwyd bod y bysgodfa rhwydi yn annhebygol o agor eto, a'r disgwyl oedd y byddai'n cau'n ffurfiol ar sail cadwraeth eogiaid. Derbyniwyd eitem ar y Symposiwm

Brithyll Môr a chafodd Fforwm Pysgodfeydd Cymru'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau adfer afonydd CNC.

27. Rhoddodd Geraint Davies, Cadeirydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, ddiweddariad i'r Bwrdd. Ystyriwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Roedd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru wedi cyfarfod ar 5 Mawrth a chrëwyd grŵp i fwydo i mewn i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i sicrhau bod lleisiau aelodau'n cael eu clywed. Cafwyd diweddariad ar y Strategaeth Hamdden.

## Eitem 6. Adroddiad Perfformiad Ariannol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

28. Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr eitem a rhoddodd drosolwg o'r papur, gan nodi bod yr adroddiad yn dangos y sefyllfa ddiwedd mis Mawrth. Roedd y Tîm Gweithredol wedi craffu ar hwn, a'r Pwyllgor Cyllid wedi adolygu'r crynodeb. Nodwyd y sefyllfa net drafft yn yr adroddiad fel tanwariant o £0.4 miliwn. Roedd gwaith manylach wedi'i wneud ers cyhoeddi'r adroddiad a bellach nodwyd bod tanwariant o £0.2 miliwn. Byddai'r Pwyllgor Cyllid yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y manylion yn y cyfarfod ym mis Mehefin. Disgrifiwyd y meysydd o danwariant ac amrywiadau eraill a manylwyd arnynt yn yr adroddiad. Roedd y tanwariant wedi'i ragweld ac roedd trafodaeth wedi'i chynnal gyda'r Pwyllgor Cyllid ym mis Mawrth o ran ymhle y gellid defnyddio'r tanwariant, a oedd yn cynnwys ailasesu cynlluniau taliadau a defnyddio mwy o gymorth grant tuag at gynlluniau a ariennir yn allanol, a fyddai'n golygu y byddai modd gohirio rhywfaint o'r cyllid Ewropeaidd i'w ddefnyddio mewn blynyddoedd i ddod, gan helpu gyda phwysau chwyddiant. Nododd y Pennaeth Cyllid iddi fod yn flwyddyn ariannol anodd gyda nifer o faterion nas rhagwelwyd, megis codiadau cyflog a heriau yn ymwneud â'r Rhaglen Gyfalaf Llifogydd. Tynnwyd sylw at berfformiad cadarnhaol rhaglenni fel y Rhaglen Argyfwng Natur a Hinsawdd a chydabuwyd cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Rhaglen Gyfalaf Llifogydd.
29. Diolchodd y Bwrdd i'r tîm, gan gydnabod faint o waith oedd wedi'i wneud.
30. Holodd aelodau'r Bwrdd a oedd unrhyw wersi a ddysgwyd i'w dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol newydd. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod y ddau brif fater yn ymwneud â chyflogau ac incwm pren yn debygol o gael eu lliniaru ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.
31. Nodwyd y rheolaethau ar recriwtio, a holodd aelodau'r Bwrdd am lefel yr arbedion a gyflawnwyd gan hyn. Eglurodd y Pennaeth Cyllid nad oedd y rheolaethau recriwtio yn gwneud y lefel o arbedion a ddisgwyd ond eu bod yn helpu gyda sefyllfa'r gyllideb yn gyffredinol. Roedd rheolaethau wedi'u cryfhau ym mis Ionawr a chydabuwyd y byddai'r sefyllfa wedi bod yn waeth hebbynt.
32. Cymeradwyodd y Bwrdd y newidiadau i'r rhagolwg diweddaraf, o £272.8 miliwn i £283.8 miliwn a nododd y perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024.

**CYMERADWYWYD: Y newid i'r rhagolwg diweddaraf o £272.8 miliwn £283.8 miliwn**

## Eitem 7.Strategaeth Hamdden

Cyflwynwyr: Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir; Dawn Thompson, Tîm Cynllunio Hamdden Ystadau

33. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yr eitem. Disgrifiwyd y cefndir i ddatblygiad y Strategaeth Hamdden; ddwy flynedd yn ôl, roedd CNC yn ymdrin â phenderfyniadau gweithgareddau hamdden, ac roedd y Bwrdd yn glir ar y pryd bod angen Strategaeth Hamdden gyda ffocws ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Ers hynny roedd y Pwyllgor Ystad Tir wedi goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth.
34. Rhoddodd Dawn Thompson, Tîm Cynllunio Ystadau Hamdden, drosolwg i'r Bwrdd o'r gwaith ar y Strategaeth Hamdden. Ymgysylltwyd â staff a rhanddeiliaid, a bu ymgyrch wirioneddol i helpu i lunio dyfodol newydd ar gyfer hamdden awyr agored ar y tir sydd yng ngofal CNC. Cafwyd mewnbwn gwerthfawr gan Y Pwyllgor Ystad Tir, Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru a Fforymau Mynediad Lleol, a oedd wedi helpu i gyflawni strategaeth gonsensws ynghylch disgwyliadau rhanddeiliaid a gosod cyfeiriad ar gyfer y dyfodol o ran penderfyniadau a wneir gan staff CNC drwy'r weledigaeth ar gyfer CNC hyd at 2050. Roedd hefyd yn gyfle i ganolbwyntio ar feysydd ffocws tymor byr hyd at 2030 er mwyn alinio â'r Cynllun Corfforaethol drwy ddiffinio sut y gallai CNC alluogi mynediad i fyd natur gyda ffocws ar sicrhau dyfodol cynaliadwy, a gwella dulliau integreiddio mewnol, prosesau a gwneud penderfyniadau, a chydweithio allanol. Byddai newid i'w weld wrth i CNC roi ei adnoddau ei hun i greu cyfleoedd hamdden a thuag at reoli gweithgaredd a chefnogi eraill i gyflawni ar y tir i gysylltu pobl â natur, tra'n sicrhau bod y gweithgaredd yn cefnogi nodau Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ac Amcanion Llesiant CNC.
35. Diolchodd yr Athro Calvin Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Ystadau Tir, i'r tîm am eu gwaith wrth ddatblygu'r strategaeth. Roedd y Pwyllgor Ystadau Tir wedi goruchwyllo'r gwaith datblygu ac yn fodlon ar y canlyniad, gan nodi bod y strategaeth wedi darparu fframwaith defnyddiol ar gyfer gwneud penderfyniadau, tra'n bod yn glir ynghylch cynwysoldeb, a diogelu a gwella dulliau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
36. Eglurodd y Pennaeth Stiwardiaeth Tir y camau nesaf ar gyfer gweithredu'r strategaeth drwy gynlluniau gwasanaeth ar y tir sydd yng ngofal CNC. Byddai newidiadau'n cael eu gwneud lle bo angen i ddyrannu adnoddau'n wahanol, gan gydnabod bod angen lleihau adnoddau yn gyffredinol. Byddai cyfiawnder cymdeithasol yn cael ei ystyried o amgylch lle y gellid ychwanegu'r gwerth mwyaf, megis safleoedd sydd â'r potensial i gyrraedd y rhai a fyddai'n elwa fwyaf. Byddai angen i'r bwrdd wneud penderfyniadau strategol.
37. Croesawodd y bwrdd y Strategaeth Hamdden, gan werthfawrogi'r cydbwysedd rhwng cynhwysiant, cyfrifoldeb a diogelu'r amgylchedd. Amlygwyd y cyfleoedd ar gyfer defnyddio technoleg ar gyfer dehongli a gwybodaeth. Amlygodd Geraint Davies, fel Cadeirydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, y gwaith da a wnaed gyda'r rhanddeiliaid. Canmolodd aelodau'r bwrdd lefel yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd. Cydnabuwyd bod y strategaeth yn darparu fframwaith defnyddiol i helpu gyda'r gwaith o wneud penderfyniadau yn y dyfodol.

38. Croesawyd y cydweddiad â thrafodaethau strategol y bwrdd ynghylch nodau ar bartneru a gweithio mwy gydag eraill. Holwyd a oedd gwaith yn mynd rhagddo i ddenu partneriaid. Cadarnhaodd Dawn Thompson mai dyma fyddai'r cam nesaf, gan fwrw ymlaen â dadansoddiad rhanddeiliaid ar lefel genedlaethol a lleol, gan gynnwys rhagnodi cymdeithasol a chynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
39. Holodd aelodau'r bwrdd sut y byddai ystyriaethau ynghylch meysydd fel enw da, iechyd a diogelwch, ac ariannu yn bwydo i mewn i'r fframwaith wrth ystyried penderfyniadau dadleuol. Esboniodd y Pennaeth Stiwardiaeth Tir y model a oedd yn cynnwys cydweithwyr Lle yn edrych ar yr hyn y byddai'r strategaeth yn ei olygu i'w hardal gan gyflwyno penderfyniadau pwysig i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.
40. Holwyd sut y byddai'r elfennau o gwmpas cyfiawnder cymdeithasol yn cysylltu â'r Cynllun Busnes a'r metrigau. Cadarnhaodd y Pennaeth Stiwardiaeth Tir y byddai'r Cynllun Busnes yn cynnwys ymrwymiad ar y canlyniadau i'w cyflawni, a fyddent felly yn weladwy i'r bwrdd. Gofynnodd aelodau'r bwrdd a oedd llinell sylfaen o'r rhai sy'n cael mynediad at dir CNC a sut y byddai'r ardaloedd sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol a natur drefol yn cael eu diffinio. Eglurwyd bod fframwaith parthau yn cael ei gynnig i fapio'r tir sydd yng ngofal CNC ar gyfer yr ardaloedd i'w datblygu gyda chymunedau, a pharthau natur sydd â gwerth cadwraeth uchel y dylid eu gwarchod.
41. Croesawyd cynnwys y manteision iechyd mewn perthynas â hamdden awyr agored. Ystyriwyd y dull o wirfoddoli a chadarnhawyd bod hyn yn debygol o fod yn rhan o elfen bartneriaeth.
42. Nodwyd bod y fersiwn gyfredol o'r strategaeth wedi'i hanelu'n fewnol, a chadarnhawyd y byddai dogfen allanol hefyd yn cael ei llunio a fyddai'n rhoi cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu ymhellach. Pwysleisiodd aelodau'r bwrdd y byddai angen i'r strategaeth symud ymlaen i'r camau chyflawni. Cadarnhawyd y byddai'r Grŵp Busnes Stiwardiaeth Tir yn arwain ar y gwaith cyflawni dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Ystadau Tir. Cydnabuwyd y cyfyngiadau o ran adnoddau ond byddai'n bwysig dangos y brwdfrydedd a datblygu cyfleoedd.
43. Diolchodd y cadeirydd i'r tîm a Forestry England a oedd wedi cefnogi secondiad Dawn Thompson i CNC.
44. Cymeradwyodd y Bwrdd y Strategaeth Hamdden.

## **CYMERADWYWD: Y Strategaeth Hamdden**

### **Eitem 8. Unrhyw fater arall**

45. Ni chodwyd unrhyw faterion o dan unrhyw fater arall.

## **Daeth y cyfarfod i ben**

## **Holi ac ateb cyhoeddus**

46. Nododd y Cadeirydd y cwestiynau a gafwyd ymlaen llaw am Safle Tirlenwi Withyhedge a'r Canolfannau Ymwelwyr. Gwnaed datganiadau ar ddechrau'r cyfarfod ar y materion hyn. Ni chafwyd unrhyw gwestiynau pellach ar faterion eraill cyn y cyfarfod.

## **Daeth y cyfarfod cyhoeddus i ben**

# Cofnodion heb eu cadarnhau

## Atodiad A

Teitl y cyfarfod: Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyfarfod Cyhoeddus

Dyddiad y cyfarfod: 23 Mai 2024

### Datganiad Withyhedge

Rydym yn deall cryfder teimladau pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cymunedau o amgylch Safle Tirlenwi Withyhedge, ac rydym ninnau hefyd am weld y materion yn cael eu datrys ar y safle cyn gynted â phosibl.

Mae'r asesiadau rydym yn eu cynnal i benderfynu a yw gweithredwr y safle, RML Ltd, wedi cydymffurfio â'n [Hysbysiad Gorfodi Rheoliad 36](#) yn gymhleth a bydd yn cymryd peth amser i'w cwblhau.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae ein swyddogion yn cynnal archwiliad nwy llawn ar y safle tirlenwi yr wythnos hon i archwilio effeithiolrwydd system rheoli nwy y safle tirlenwi yn dilyn gwelliannau a wnaed yn sgil yr Hysbysiadau Gorfodi. Mae hyn yn cynnwys capio ardaloedd o'r safle ymhellach a gosod ffynhonnau nwy safle tirlenwi ychwanegol. Y tu allan i ofynion yr Hysbysiad Gorfodi, mae gweithredwr y safle hefyd yn gweithio i gwblhau'r gwaith o gapio cell 8 y disgwylir iddo ddod i ben yr wythnos hon.

Cynhaliwyd asesiadau arogl yn bob dydd yr wythnos ddiwethaf a thros y penwythnos mewn lleoliadau amrywiol o fewn ac o gwmpas cymunedau o amgylch Safle Tirlenwi Withyhedge, ar adegau amrywiol o'r dydd a'r nos. Gwyddom fod arogleuon yn parhau i gael eu canfod a byddwn yn parhau i gynnal ein hasesiadau yn y dyddiau a'r wythnosau i ddod i benderfynu a gafwyd unrhyw leihad o ran yr arogl.

Dim ond ar ôl i'r safle gael ei asesu'n llawn ac ar ôl i'r adroddiadau gan weithredwr y safle gael eu hadolygu y byddwn yn gallu pennu cydymffurfedd â'r hysbysiad gorfodi a gweld a yw'r camau a gymerwyd gan y gweithredwr wedi lleihau allyriadau nwyon sy'n ffoi. Yna byddwn mewn sefyllfa i ystyried a oes angen unrhyw gamau gorfodi pellach, gan edrych ar yr holl opsiynau sydd ar gael inni o dan y rheoliadau.

### DIWEDD

# Cofnodion heb eu cadarnhau

## Atodiad B

Teitl y cyfarfod: Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyfarfod Cyhoeddus

Dyddiad y cyfarfod: 23 Mai 2024

### Datganiad ynghylch canolfannau ymwelwyr

Diolch i bawb sydd wedi cysylltu ag Aelodau'r Bwrdd, Tîm Gweithredol CNC a swyddogion CNC ynglŷn â'r sefyllfa bresennol o amgylch Canolfannau Ymwelwyr. Roeddwn am wneud datganiad cyffredinol ynglŷn â'u sefyllfa bresennol ac ymdrin â rhai o'r cwestiynau sydd wedi dod i law yn y bwrdd cyhoeddus hwn. Rydym wedi derbyn llawer o ohebiaeth ddefnyddiol am y canolfannau ymwelwyr yr ydym wedi'i hystyried, ac rydym yn gwranddo ar y pwyntiau a godwyd gennych. Fodd bynnag, rydym yn gwybod oherwydd bod rhai llythyrau wedi dod i CNC drwy lawer o wahanol lwybrau, efallai y bu rhywfaint o oedi cyn ein hymateb yn ôl i rai ohonoch ac mae'n ddrwg gennym am hynny.

Rydym bellach wedi neilltuo unigolyn penodedig i reoli'r ohebiaeth hon. Rydym wedi cael sawl cwestiwn i'w ymateb gan y bwrdd ac mae rhai ohonynt yn fanwl iawn. Rydym am roi ateb mor llawn â phosibl i chi ac felly bydd eich cwestiynau a'n hymatebion yn cael eu rhannu'n llawn gyda'r holwr ac aelodau'r bwrdd.

Gwyddom oll fod cyllid cyhoeddus yn eithriadol o brin, a bod gennym ddarn o waith parhaus sy'n adolygu'n feiriadol: yr hyn y gallwn ac y mae'n rhaid inni barhau i'w wneud, yr hyn y dylem roi'r gorau iddo, a'r hyn y dylem ei arafu neu ei wneud yn wahanol i gyflawni uchelgeisiau ein [Cynllun Corfforaethol](#) gyda'r amgylchedd wrth galon ein holl benderfyniadau.

Gwyddom fod hwn yn ddarn sylweddol o waith a chan ein bod wedi gallu lleihau ein pwysau ariannol, drwy bethau fel recriwtio llymach, rydym bellach wedi ymestyn yr amserlen ar gyfer yr adolygiad ehangach hwn.

Mae hyn yn golygu nad oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto.

### DIWEDD

## Log Gweithredu'r Bwrdd – Cyhoeddus

Rhif Cam Gweithredu	Categori Cyfarfod	Dyddiad Cyfarfod	Rhif Eitem	Rhif Paragraff	Noddwr y Papur	Cam Gweithredu	Perchennog	Erbyn	Statws	Nodiadau/Diweddariadau
2	Cyhoeddus	27/01/2023	9	47	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol	CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd i ddatblygu'r dull o ymdrin â sesiynau ymgysylltu cyhoeddus y Bwrdd yn seiliedig ar le	Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd	01/09/2024	Yn barhaus	Opsiynau ar gyfer datblygu ymgysylltu â'r cyhoedd gan y Bwrdd. Y dull i'w gytuno gyda'r Cadeirydd a'r Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd.



## Papur Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	17 Gorffennaf 2024
<b>Teitl y papur:</b>	Adroddiad y Prif Weithredwr (Sesiwn Gyhoeddus)
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	24-07-B10
<b>Cyflwynwyd y papur gan:</b>	Clare Pillman, Prif Weithredwr
<b>Diben</b>	Gwybodaeth a thrafodaeth
<b>Crynodeb</b>	Mae'r papur yn rhoi diweddariad i'r bwrdd ar faterion cyfredol.

### Cyflwyniad

- Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae cryn dipyn o amser y Tîm Gweithredol wedi'i dreulio ar y Rhaglen Newid, yn adolygu'r allbynnau o'r gwaith cychwynnol, dwys gan y Tîm Arwain ac yn ystyried effeithiau ehangach y newidiadau arfaethedig. Mae ein Grŵp Cynllunio ac Adnoddau hefyd wedi bod yn gweithio'n galed ac yn cyfarfod yn rheolaidd i helpu i adolygu a chwblhau cynigion yn barod i'r bwrdd eu hystyried. Rwy'n ddiolchgar i bawb sydd wedi gweithio mor ddiwyd ar y manylion i sicrhau ein bod mor hyderus ag y gallwn fod am ein gallu i weithredu o fewn ein cyllideb a pharhau i gyflawni ein hamcanion dros y blynyddoedd i ddod.
- Ar yr un pryd, rydym wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb am y broses lefel uchel a'r amserlenni tebygol. Mae diddordeb dealladwy ymhlith cydweithwyr ynghylch toriadau posibl i adnoddau a staffio, ac rydym wedi ymrwymo i gyfathrebu mor agored ag y gallwn gan barchu cyfrinachedd y broses o wneud penderfyniadau ac ymgynghori ar yr un pryd. Anfonais neges e-bost arall at yr holl staff ddiwedd mis Mehefin, yn nodi mwy o fanylion am y gwaith a wnaed hyd yma a'r amserlenni ar gyfer y camau nesaf. Ailadroddais ein nod o osgoi diswyddiadau cyn belled ag y bo modd trwy baru cydweithwyr sydd heb eu hadleoli â'r rolau gwag niferus ar draws y sefydliad.
- Heb os, uchafbwynt yr ychydig fisoedd diwethaf oedd ein digwyddiad ar 5 Mehefin i ddathlu Diwrnod Amgylchedd y Byd yn y Senedd. Noddwyd hyn gan Llyr Griffiths, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, ac roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies yn bresennol, a gymerodd ran mewn trafodaeth banel ochr yn ochr â'r Arglwydd Deben. Mae'r

Arglwydd Deben yn un o gyn-gadeiryddion Pwyllgor annibynnol y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd. Roedd y drafodaeth banel yn canolbwyntio ar y rôl ganolog y mae'r sector cyhoeddus a chyrrff amgylcheddol yn ei chwarae wrth helpu Cymru i gyflawni ei nodau hinsawdd a bioamrywiaeth. Yn dilyn trafodaeth y panel, cyflwynwyd y mynychwyr i waith Natur am Byth yn ei holl ogoniant. Cyflwynodd partneriaid yn y prosiect eu gwaith gydag angerdd a sgîl, gan sicrhau bod yr achlysur yn un arbennig iawn.

4. Gwnaethom lai o'n gweithgarwch cyhoeddusurwydd arferol yn ystod y dydd oherwydd y cyfyngiadau cyn yr etholiad. Serch hynny, daeth llawer o bartneriaid i'r digwyddiadau ac mae'r adborth wedi bod yn hynod gadarnhaol. Hoffwn ddiolch i bawb a fu'n ymwneud â chyflwyno'r diwrnod a'i wneud yn gymaint o lwyddiant.
5. Hefyd ym mis Mehefin, cyfarfûm â Dr Nerys Llewelyn Jones, Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, a'i dau ddirprwy newydd, Anna Heslop a Lynda Warren (cyn-aelod o Fwrdd CNC). Roedd yn drafodaeth ddefnyddiol, a oedd yn ymdrin â'n dull gorfodi a'n polisi erlyn, adroddiad Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru ar safleoedd gwarchoddedig a ddisgwylir yn ddiweddarach yn yr haf, a threfniadau llywodraethu'r dyfodol yn dilyn ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru ar *Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy*.
6. Cefais i a Gareth O'Shea ein cyfarfod rheolaidd â Chris Llewellyn a Tim Peppin o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Fe wnaethom rannu diweddariadau sefyllfa a materion gweithredol allweddol, a thrafod y camau nesaf ar gyfer ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Mae'r cyswllt ar lefel ranbarthol hefyd yn parhau'n gryf, gyda chyfarfodydd rhanbarthol ym mis Mehefin a mis Gorffennaf yn canolbwyntio ar bynciau gan gynnwys llygredd ffosffad a datblygiad y porthladdoedd rhydd.
7. Bûm ar ymweliad safle ym Mryn Ifan ar Benrhyn Llŷn gyda phrif swyddogion gweithredol o gyrff anllywodraethol amgylcheddol eraill Cymru ganol mis Mehefin. Trefnwyd a chynhaliwyd hwn gan Ymddiriedolaethau Natur Cymru, ac roedd yn cynnwys cyflwyniad hynod ddiddorol am Raglen Coedwigoedd Glaw'r Iwerydd a ddilynwyd gan daith dywys, ac ymweliad â Henbant Permaculture, fferm adfywiol a gardd farchnad.
8. Roedd ymweliad safle cynharach, ddiwedd mis Mai, â hen safle Magnox yn Nhrawsfynydd yn gyfle i glywed am y cynnydd gyda datgomisiynu ac ailddatblygu gan Rob Fletcher, Prif Swyddog Gweithredol y Gwasanaethau Adfer Niwclear. Mae safle Trawsfynydd wedi'i ddynodi gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear fel safle datgomisiynu "arwain a dysgu" y DU, gyda gwaith datgomisiynu llawn yn digwydd dros y degawdau nesaf – gan roi persbectif unigryw a gwerthfawr i CNC ar yr agweddau trwyddedu a rheoleiddio ar y broses.
9. Ddechrau mis Gorffennaf, bûm mewn cinio ffurfiol gyda'r cwmni Worshipful Company of Water Conservators yn Llundain. Yr achlysur oedd gosod prif warchodwr dŵr newydd, ac er mwyn osgoi unrhyw ddadlau yn ystod wythnos yr

etholiad, siaradais â'r cwmni am ein gwaith da ar lygredd dŵr mwyngloddiau metel a'r ffordd y mae CNC yn rheoli etifeddiaeth gorffennol diwydiannol Cymru.

10. Yn ystod mis Gorffennaf, cyfarfûm hefyd ag ymddiriedolwyr Cyswllt Amgylchedd Cymru. Mae rhai o'n cyfarfodydd arferol a'n digwyddiadau arfaethedig wedi'u gohirio oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod cyn yr etholiad.
11. Bydd Catrin Hornung, ein Pennaeth Cyfathrebu a Thrawsnewid Digidol, yn symud ymlaen ddiwedd Gorffennaf i rôl newydd gyda Mentera (Menter a Busnes gynt). Mae Catrin wedi bod gydag CNC, ac Asiantaeth yr Amgylchedd cyn hynny, ers bron i ugain mlynedd felly mae hyn yn newid sylweddol iddi ac yn golled enfawr i CNC. Dymunwn y gorau i Catrin ar gyfer ei gyrfa yn y dyfodol a byddwn yn gweld eisiau ei harweiniad, ei harbenigedd a'i harweiniad craff.
12. Llongyfarchiadau i'n tîm Archwilio Mewnol, a enillodd y wobwr am Dîm Eithriadol y Sector Cyhoeddus yn seremoni Gwobrau Archwilio a Risg blynyddol Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol yn Llundain ym mis Mehefin. Mae'r wobwr yn gydnabyddiaeth o'r safonau sicrwydd cyson uchel y mae ein tîm archwilio yn eu darparu a gwn y bydd y bwrdd yn ymuno â mi i ddathlu'r cyflawniad sylweddol hwn.

## Materion strategol

### Prosiect System Rhybuddio Llifogydd Newydd

13. Rydym bellach yn y camau olaf o brofi systemau a hyfforddiant, ac mae'r system newydd ar y trywydd iawn i fynd yn fyw ganol mis Gorffennaf. Er bod yr union ddyddiad i fynd yn fyw yn dibynnu ar y tywydd a digwyddiadau, y dyddiad arfaethedig ar gyfer newid yw 16 Gorffennaf.
14. Mae hwn yn brosiect buddsoddi cyfalaf hollbwysig i fusnes a fydd yn galluogi CNC i ddarparu Gwasanaeth Gwybodaeth Rhybuddion Llifogydd amlgyfrwng newydd i Gymru (dyletswydd statudol) a rhoi'r gorau i'r gwasanaeth a reolir gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar hyn o bryd. Er ei fod yn brosiect disodli system, rydym hefyd yn lansio cyfres o atebion digidol integredig a fydd yn ein galluogi i anfon negeseuon at y cyhoedd a phartneriaid ymateb, cofrestru a rheoli cyfrifon cwsmeriaid a darparu gwasanaeth negeseuon wedi'u recordio ar gyfer gwasanaeth Floodline.
15. Dechreuodd y Prosiect Cwmpasu gwreiddiol yn 2019 ac fe'i dilynwyd gan y Prosiect Cyflawni yn 2020. Fe'i darparwyd o fewn ein rhaglen TGCh gan gyfuno ymagwedd porth ein Hachos Amlinellol Strategol arferol, ein Hachos Busnes Amlinellol a'n Hachos Busnes Llawn â dull gweithredu ystwyth. Bu modd rheoli amser a chost yn dynn, a bydd modd defnyddio ôl-groniad cynnyrch ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus ar ôl i'r prosiect gael ei lansio.
16. O ystyried ei bwysigrwydd i CNC, mae'r prosiect wedi darparu sicrwydd ac adroddiadau rheolaidd i'r Tîm Gweithredol, y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd a'r Pwyllgor Cyllid. Mae'n bleser gennym gadarnhau bod costau cyfalaf cymeradwy'r

Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn ar gyfer adeiladu'r system ar y trywydd iawn i gael eu bodloni.

17. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'n partner strategol TGCh (BJSS, a adeiladodd y system) ac wedi datblygu partneriaeth ragorol gyda nhw. Mae'r prosiect yn paratoi'r ffordd ar gyfer CNC2030 o ran y dull cyflawni ystwyth ar gyfer prosiectau digidol.
18. Yn ogystal â system newydd, bydd y prosiect yn darparu tîm cynnyrch amlddisgyblaethol sy'n cynnwys staff o'r adrannau Llifogydd, Digidol, TGCh a BJSS hefyd a fydd yn bwrw ymlaen â rhaglen wella barhaus sy'n hanfodol ar gyfer cyflawni camau gweithredu o'n Hadolygiad o'r Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd a'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad o'r llifogydd ym mis Chwefror. Dyma'r tîm cynnyrch digidol pwrpasol cyntaf ar gyfer CNC. Ymchwil defnyddwyr a gesglir gan y tîm fydd y sylfaen ar gyfer gwella gwasanaethau, gan gyflawni ein Strategaeth Ddigidol.
19. Rydym hefyd wedi achub ar y cyfle drwy'r prosiect hwn i wella:
  - y broses ar gyfer cyhoeddi negeseuon rhybudd i'n swyddogion ar ddyletswydd, gan ei gwneud yn fwy effeithlon a lleihau eu llwyth gwaith yn ystod digwyddiadau llifogydd, pwynt dysgu allweddol o lifogydd mis Chwefror 2020.
  - eglurder a chysondeb ein negeseuon rhybudd fel eu bod yn darparu cyngor mwy cyfeiriol, yn ymwneud ag effeithiau;
  - y berthynas sydd gennym â chwsmeriaid drwy newid y sianel gofrestru Rhybuddion Uniongyrchol Estynedig i gynnig cofrestriad llawnach i gwsmeriaid, gan gynnwys cyfathrebiadau i'w hysbysu am y newid a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i ddiweddarau eu cofrestriad.
20. Gan fod y prosiect hwn yn cyflwyno system cylch bywyd newydd ac y bydd yn ddi-dor o safbwynt y cyhoedd, bydd y lansiad cyhoeddus yn un meddal ac felly nid ydym yn paratoi ymgyrch gyfathrebu gyhoeddus. Nid yw'r codau rhybuddion llifogydd, y trothwyon a ddefnyddir sy'n sbarduno rhybuddion a'r ardaloedd targed (eiddo) yr ydym yn anfon rhybuddion atynt yn newid. Fodd bynnag, byddwn yn cynnal ymgyrch gyfathrebu yn yr hydref pan fyddwn yn disgwyl lansio rhai gwelliannau parhaus o ran cofrestru'r cyhoedd a rhannu ein negeseuon i annog parodrwydd ar gyfer y gaeaf.

### **Pwerau Coedwigaeth Newydd o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967**

21. Mae pwerau newydd a roddwyd i CNC o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967 wedi'u rhoi ar waith o 1 Ebrill. Mae'r pwerau i bennu amod, diwygio, atal a dirymu trwyddedau yn berthnasol i drwyddedau cwmpo coed yn unig, ac yn ein galluogi i ychwanegu amodau amgylcheddol at bob cais am drwydded cwmpo coed a dderbynnir ar neu ar ôl 1 Ebrill. Mae'r rhain yn cyd-fynd ag amodau ailstocio ac yn rhoi eglurder i ddeiliad y drwydded ar eu cyfrifoldebau am sicrhau eu bod yn lliniaru difrod i

rywogaethau a warchodir a'u bod yn lleihau neu'n atal difrod i'r amgylchedd ehangach. Mae'r holl amodau yn unol â Safonau Coedwigaeth y DU. Gallwn orfodi'r amodau amgylcheddol a cheisio amrywio, atal a dirymu'r drwydded cwmpo coed o dan rai amgylchiadau lle nad yw deiliad y drwydded yn cydymffurfio â'r amodau amgylcheddol.

22. Mae CNC bellach yn gallu diwygio trwyddedau mewn cytundeb â deiliaid trwyddedau. Mae hwn yn gam cadarnhaol ymlaen i CNC a'r rhanddeiliaid, gan leihau'r angen i ailymgeisio am drwydded cwmpo coed lawn. Ymgwymerwyd â chryn dipyn o ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn gweithredu, a lluniwyd canllawiau mewnol ac allanol. Rydym hefyd wedi diweddarau a gwella'r ffurflen gais ar-lein ar gyfer ceisiadau am drwydded cwmpo coed. Rydym wedi derbyn nifer fach o geisiadau ers 1 Ebrill gydag adborth cadarnhaol ar y cyfan gan ymgeiswyr.
23. Mae trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru a nifer fach o gynrychiolwyr y sector lle mae pryderon cyfyngedig wedi'u codi ac rydym yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r pryderon hyn. Rydym wedi ymrwymo i gynnal adolygiad llawn o'r gwaith o weithredu'r pwerau newydd ym mis Ebrill 2025, a chroesewir adborth parhaus gan ymgeiswyr dros y deuddeg mis nesaf.

## **Llonyddwch a Lle**

24. Mae llonyddwch yn gysylltiedig â'r graddau y mae lleoedd ac ecosystemau yn creu cyflwr o dawelwch, llonyddwch a heddwch. Mae'n ased tirwedd gwerthfawr iawn, sy'n cyfrannu at ein hiechyd, ein llesiant ac ansawdd ein bywyd. Fel adnodd naturiol, fe'i profir amlaf yn y dirwedd wledig ond gellir ei ganfod hefyd mewn mannau agored a pharciau trefol. Ble bynnag y maent, gall ardaloedd tawel ddenu ymwelwyr a thwristiaid ac felly ddod â buddion economaidd – er bod y cydbwysedd yn un bregus iawn, oherwydd gall newidiadau mewn sŵn, amhariad gweledol a llygredd golau gael effeithiau amlwg ar leoliadau naturiol a llonyddwch.
25. Er mwyn llywio ein polisïau, ein harferion a'n darpariaeth, rydym wedi bod yn datblygu adnodd Llonyddwch a Lle sy'n gyson ar lefel genedlaethol sy'n nodi adnoddau cymharol dawel ar lefel strategol a lleol. Mae'r adnodd yn cynnwys chwe thema wedi'u mapio a fydd yn cael eu cyfuno i mewn i'r adnodd Llonyddwch a Lle. Mae'r themâu'n cynnwys mannau sy'n dawel yn weledol, amgylcheddau acwstig lle mae synau naturiol yn amlwg, awyr sy'n gymharol dywyll, a digonedd o natur, tirweddau naturiol a mannau gwyrdd. Mae gwaith ar nifer o'r rhain eisoes wedi'i gwblhau, a'r gwaith sy'n ymwneud â'r amgylchedd sain a llunio'r adnodd llawn yw'r camau olaf.
26. Gall y setiau data unigryw hyn ein helpu i ddeall ac ystyried y themâu unigol a'r llonyddwch cyffredinol yn eu cyd-destun. Gellir defnyddio Llonyddwch a Lle yn ein tystiolaeth tirwedd ac wrth weithredu polisi a gwneud gwaith i ddylunio cynlluniau a chwblhau asesiadau. Mae ein gwybodaeth well o'r adnoddau tawel hyn yn sicrhau y gallwn gadw a rheoli'r agweddau ar dawelwch sydd o bwys i bobl a natur mewn ffordd gynaliadwy.

## Materion gweithredol

### Safle tirlenwi Withy hedge

27. Ers diweddariad y bwrdd ym mis Mai, mae Hysbysiad pellach o Reoliad 36 wedi'i gyflwyno a'r dyddiad cau wedi pasio, yn nodi'r camau i'w cymryd mewn perthynas â chell 8 i leihau allyriadau nwy a'r aroglau annymunol sy'n effeithio ar drigolion lleol.
28. Mae penderfynu ar gydymffurfiaeth â'r Hysbysiadau Gorfodi Rheoliad 36 blaenorol, a gyflwynwyd ym mis Chwefror a mis Ebrill, yn gymhleth ac mae angen adolygu adroddiadau a gyflwynwyd i CNC ynghyd ag archwiliadau gweledol o seilwaith ffisegol. Mae canlyniad y gwaith a wnaed ers mis Chwefror o dan y ddau hysbysiad hyn yn golygu cynnydd sylweddol yn yr ardal y mae nwy safle tirlenwi yn cael ei dynnu ohoni, a chynnydd yng nghyfaint y nwy sy'n cael ei ddal. Cynhaliodd ein swyddogion archwiliad o'r system casglu a rheoli nwy safle tirlenwi i asesu effeithiolrwydd y seilwaith a osodwyd yn newydd a gallu'r system i reoli'r mewnbwn nwy ychwanegol. Mae rhai meysydd i'w gwella wedi'u nodi a byddant yn cael eu ffurfioli mewn cynllun gwella unwaith y bydd ein hasesiadau wedi'u cwblhau.
29. Mae'r gwaith a wnaed i gapio pob ardal sydd â gwastraff ar y safle wedi cael gwared ar ffynonellau sylweddol posibl o allyriadau sy'n ffoi. Yn seiliedig ar adroddiadau digwyddiad sy'n dod i law erbyn hyn, mae'n ymddangos bod nifer yr achosion o arogleuon oddi ar y safle wedi gostwng, er bod nifer uchel o adroddiadau wedi'u derbyn ac arogl cryf oddi ar y safle wedi'i gadarnhau yn ystod yr wythnos yn dechrau 10 Mehefin. Mae ymchwiliadau'n parhau i ganfod yr achos a sicrhau bod y gweithredwr yn cymryd camau effeithiol.
30. Ein blaenoriaeth fu sicrhau bod gwaith i reoli allyriadau sy'n ffoi, ac felly arogleuon, yn cael ei wneud gan y gweithredwr, Resources Management Ltd (RML). Mae ein ffocws nawr yn symud tuag at geisio gwybodaeth a sicrwydd gan RML ynghylch sut y bydd y safle yn cael ei weithredu yn y dyfodol heb greu arogleuon oddi ar y safle. Rhoddodd RML y gorau i dderbyn gwastraff ar y safle yn wirfoddol ar 14 Mai. Mae gwaith yn parhau mewn perthynas â rheoli nwy ar draws y safle, yn ogystal â symud cell 9 i'r cam o geisio cymeradwyaeth Sicrhau Ansawdd Adeiladu i ganiatáu derbyn gwastraff yn ddiweddarach yn yr haf.
31. Mae mater yr ansawdd aer yn sefyll ar wahân i'r gwaith asesu arogleuon a wnaed gan ein swyddogion, sy'n sail i'n dull rheoleiddio ar gyfer y safle. Ystyrir y materion hyn gan y Grŵp Ansawdd Aer sy'n cael ei gadeirio gan Gyngor Sir Penfro, gydag CNC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn aelodau. Mae'r Grŵp Ansawdd Aer yn goruchwyllo'r gwaith o gasglu data at ddibenion monitro ansawdd aer er mwyn llywio'r cyngor a roddir i'r cyhoedd. Casglwyd data cyn ac yn ystod y broses o roi'r gorau i fewnforio gwastraff dros dro, a bydd yn parhau ar ôl hynny hefyd. Bydd data a gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd cyn gynted â phosibl. Mae rhywfaint o wybodaeth wedi'i chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Penfro.

## **No Mow May**

32. Mae CNC wedi bod yn cefnogi No Mow May am y drydedd flwyddyn, ac eleni fu'r fwyaf llwyddiannus eto. Torrwyd y gwair ar gyfer llai na deg o'n hasedau ym mis Mai, ac mae adborth allanol wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan. Byddwn yn ymrwymo amser yn ystod y flwyddyn nesaf i wella hyn ymhellach ac archwilio ffyrdd o reoli ein hasedau'n wahanol er mwyn cyfrannu'n gadarnhaol at adferiad byd natur.

## **Dirprwyaeth y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC).**

33. Argymhellodd Archwiliad Dwfn Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth Cymru, a gwblhawyd yn 2021, symleiddio'r broses ar gyfer datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy'r Môr Celtaidd, gan gynnwys dirprwyo pwerau cynghori ar ynni adnewyddadwy alltraeth yn nyfroedd Cymru (y tu hwnt i ddeuddeg milltir forol) o'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i CNC. Mae adolygiad bellach wedi'i gynnal i archwilio'r manteision a'r anfanteision o safbwyntiau CNC, Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a rhanddeiliaid allweddol eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru a datblygwyr. Er bod manteision, mae darparu adnoddau ar gyfer y newid yn her ar hyn o bryd a phenderfynwyd y bydd y swyddogaeth yn aros gyda'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur am y dyfodol rhagweladwy.

## **Rhaglen ansawdd dŵr**

34. Mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd CNC yn nodi'r hyn a wyddom am ein hafonydd, llynnoedd, camlesi, dyfroedd daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol, yr hyn y mae angen inni ei wneud i'w gwella, a sut y byddwn yn gwneud hyn. Ar 29 Mai, i gyd-fynd â'n cylch nesaf o Gynlluniau Rheoli Basn Afonydd, gwnaethom lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar gydweithio, wedi'i dargedu at y rheini sydd â diddordeb yn adnoddau dŵr Cymru. Rydym yn ceisio barn ar sut rydym yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'r bobl gywir ar yr adeg gywir yn y ffordd gywir ynghylch cynlluniau ar gyfer dŵr yng Nghymru. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 20 Rhagfyr eleni.
35. Ddechrau mis Mehefin, gwnaeth Ceri Davies a Gareth O'Shea gyflwyniad i Bwyllgor Bwrdd Ansawdd a Diogelwch Dŵr Cymru, gan rannu ein hasesiad o berfformiad amgylcheddol blynyddol y cwmni a'n disgwyliadau ar gyfer gwella. Cynhaliwyd cyfarfod Perfformiad Blynyddol Dŵr Cymru – a fynychwyd hefyd gan Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd a Llywodraeth Cymru – wythnos yn ddiweddarach. Mae cyfarfod tebyg gyda Hafren Dyfrdwy wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf.
36. Bydd adroddiad ar Berfformiad Amgylcheddol Blynyddol Cwmnïau Dŵr yn cael ei gyhoeddi ar wefan CNC ar ôl yr etholiad cyffredinol ganol mis Gorffennaf. Disgwylir penderfyniad drafft Ofwat ar gyfer Adolygiad Prisiau 24 (PR24) ar 11 Gorffennaf, a byddwn yn diweddarau'r bwrdd ar ei gynnwys yn y cyfarfod.

## **Diweddariad Chwarterol ar Orfodi**

37. Yn ystod y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth, agorodd CNC 306 o achosion gorfodi newydd. Cynhyrchwyd 63% o'r achosion hyn yn sgil gweithgareddau asesu cydymffurfedd ar safleoedd a ganiateir, a chynhyrchwyd traean yn dilyn ein presenoldeb mewn digwyddiadau. Roedd y mwyafrif o achosion yn ymwneud â bioamrywiaeth, dŵr, gwastraff a diwydiant.
38. Yn ystod yr un cyfnod adrodd, caewyd 144 o achosion gennym. Caewyd y rhan fwyaf o'r rhain gyda chyngor ac arweiniad; cyhoeddwyd 35 o rybuddion. Cafwyd deuddeg achos erlyn ac yn sgil hynny cyhoeddodd y llysoedd dros £90,000 o ddirwyon a dyfarnu costau o bron i £22,000 i CNC.
39. Mae 162 o achosion yn parhau i fod ar agor ac yn destun ymchwiliad. Mae hyn oherwydd natur ein gwaith ymchwilio a gorfodi a'r amser y gall ei gymryd i ymchwilio i ddigwyddiad, nodi troseddwy'r posibil, cael barn gyfreithiol a diweddarau ein systemau ar gynnydd a chanlyniadau gorfodi.

## Materion mewnol

### CNC2030

40. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu llywodraethiant cadarn o amgylch prosiect CNC2030 erbyn diwedd mis Medi. Byddwn yn cynnwys y Grŵp Cynllunio ac Adnoddau yn agos dros yr haf i brofi a mireinio gweledigaeth CNC2030 a chyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r trefniadau llywodraethu.
41. O'r pedair rhaglen NRW2030 allweddol, mae dwy – Pobl ac Adfywio – eisoes wedi'u sefydlu ac yn parhau i gyflawni. Mae Trawsnewid Pobl ar y trywydd iawn i gyflwyno System Rheoli Dysgu newydd ym mis Gorffennaf. Mae gwaith Adfywio yn canolbwyntio ar ddod o hyd i ganolfan weithredol yng Nghanol De Cymru, tra bydd prosiect Maes y Ffynnon yn edrych ar opsiynau a dewisiadau eraill ar gyfer diwedd y brydles yn 2026. Yn dilyn cyfres o weithdai gyda defnyddwyr fflyd ar y newid i gerbydau trydan, mae cynllun pontio pum mlynedd yn cael ei ddrafftio ar gyfer fflyd CNC.
42. Mae'r rhaglen Dechnoleg yn mynd rhagddi, gyda dogfennau'r rhaglen yn cael eu hadolygu at ddibenion sicrwydd. Mae prosiectau allweddol yn cynnwys Sefydlogi TGCh, Seiber, Adfer ar ôl Trychineb, DDaT (Digidol, Data a Thechnoleg), a Rheoli Systemau Nad Ydynt yn cael eu rheoli gan TGCh. Mae Sefydlogi TGCh eisoes yn symud yn gyflym drwy weithio ar y cyd â'n partner cyflawni tactegol, ac mae rhai cyflawniadau allweddol megis gwaith Injan Bilio eisoes wedi'u cyflawni. Er mwyn cynorthwyo gyda'r ceisiadau am waith sydd ar y gweill ar draws y sefydliad, mae Awdurdod Dylunio Menter wedi'i sefydlu. Bydd hyn yn brysbennu ac yn blaenoriaethu gwaith sy'n gofyn am adnoddau TGCh, tra'n sicrhau bod pob cais am waith wedi'i alinio'n strategol i gyflawni ein Cynllun Corfforaethol.

### System Rheoli Dysgu a Chanolfan Wybodaeth Newydd



43. Lansiyd dau lwyfan newydd – y System Rheoli Dysgu a'r Ganolfan Wybodaeth – i gydweithwyr ar 1 Gorffennaf. Bydd y rhain yn ategu ei gilydd, gan rannu hyfforddiant hanfodol, datblygiad personol a sgiliau gwaith. Bydd dull gweithredu graddol ar gyfer gweithredu pellach, gan gynnwys y modiwl 'Perfformio' yn dechrau yng ngwanwyn 2025.
44. Roedd Dysgu a Datblygu yn thema gyson yn arolwg Ein Llais ac yn ein cyfarfodydd Cynllun Corfforaethol y llynedd. Mewn ymateb i hyn, mae'r System Rheoli Dysgu newydd yn syml i'w defnyddio, yn hawdd ei llywio, yn gyfeillgar i ffonau symudol ac yn cynnwys adnoddau dysgu cryno, cyrsiau diogelwch gorfodol a chatalog estynedig o gyrsiau datblygiad personol. Mae hefyd yn darparu adroddiadau cadarn, fel bod rheolwyr yn gallu gweld yn hawdd a oes unrhyw hyfforddiant yn weddill neu wedi'i gwblhau. Mae'r system yn galluogi cydweithwyr i gael mynediad hyblyg at ddysgu digidol trwy amrywiaeth o sianeli ac mae'n cefnogi gwahanol fathau o ddysgu, gan gynnwys e-ddysgu, gweminarau, fideos ac erthyglau ysgrifenedig.
45. Bydd y System Rheoli Dysgu ar gael yn ddwyieithog, a bydd hyfforddiant ar gael yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd cynnwys cwrs ychwanegol yn cael ei gyfieithu wrth i ni ymgorffori'r system newydd.
46. Mae'r Ganolfan Wybodaeth wedi'i datblygu ar sail ein gwerthoedd a'n hegwyddorion sefydliadol, ac mae'n ffordd o rannu adnoddau ac offer defnyddiol i helpu gyda datblygiad personol. Mae'r fframwaith wedi'i strwythuro o amgylch ein gweledigaeth a'n gwerthoedd a bydd pob gwerth yn cyflwyno tri chryfder, a fydd â'u hadnoddau eu hunain i gefnogi ein cydweithwyr.

### **Deddf Caffael 2023**

47. Yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, bydd Deddf Caffael newydd 2023 yn dod i rym ar 28 Hydref eleni. Yng Nghymru, mae caffael cyhoeddus yn swyddogaeth ddatganoledig a phenderfynodd Llywodraeth Cymru fabwysiadu Deddf Caffael 2023 ond hefyd i gyflwyno ei Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ei hun.
48. Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn sicrhau'r canlynol:
  - Mwy o dryloywder (cyhoeddi mwy o wybodaeth a data caffael);
  - Mwy o hyblygrwydd o ran cynllun y broses gaffael;
  - Mwy o bwyslais ar werth am arian;
  - Gwell rheolaeth ar gcontractau;
  - Mwy o ffocws ar gaffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.

49. Mae ein tîm Caffael a'n Gwasanaeth Cymorth Rheoli Contractau yn ymgymryd â hyfforddiant ar y ddeddfwriaeth newydd, ac mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu gydag aelodau o'r timau Caffael, Gwasanaeth Cymorth Rheoli Contractau a Chyllid i sicrhau bod CNC yn barod i weithredu gofynion y ddeddfwriaeth. Mae'r Tîm Caffael a'r Gwasanaeth Cymorth Rheoli Contractau yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i rannu gwybodaeth a phrofiad.
50. Bydd cyflwyniad a thrafodaeth yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid yn y dyfodol agos.

## Cyfathrebu

### Cyfathrebu corfforaethol

51. Mae'r gwaith o reoli'r llif cyson o geisiadau gan y cyfryngau a'r sylw parhaus a ddeilliodd yn sgil rhyddhau gwybodaeth o dan y cais Rhyddid Gwybodaeth am ohebiaeth ac ymchwiliadau Gweinidogol yn ymwneud â Dauson Environmental Group, yn parhau i gymryd amser ac adnoddau sylweddol. Mae ymholiadau gan y cyfryngau ynghylch dyfodol y canolfannau ymwelwyr ac effaith bosibl pwysau ariannol ar gynlluniau CNC a'i gydweithwyr hefyd wedi parhau drwy gydol y cyfnod hwn.
52. Mae'r drafodaeth ar y Strategaeth Hamdden ddrafft yng nghyfarfod y bwrdd ym mis Mai wedi arwain at ymholiadau gan gyhoeddiadau masnach ar effeithiau posibl ar yr hyn sydd gennym i'w gynnig o ran gweithgareddau hamdden. Rydym hefyd wedi parhau i ymgysylltu â staff mewnol ar ein sefyllfa ariannol gyffredinol.
53. Er bod cyfyngiadau'r cyfnod cyn yr etholiad wedi effeithio ar gynlluniau i hyrwyddo digwyddiad Diwrnod Amgylchedd y Byd yn eang yn y Senedd, gwnaethom gefnogi swyddfa'r Prif Swyddog Gweithredol i baratoi ar gyfer y drafodaeth banel a gweithio gyda thîm cyfathrebu Llywodraeth Cymru a swyddfa'r Arglwydd Deben i ddatblygu a chytuno ar negeseuon o gwmpas. eu presenoldeb. Croesawyd y digwyddiad hwn yn eang ac mae adborth gan ein rhanddeiliaid wedi bod yn hynod gadarnhaol.
54. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod. Thema'r ddau ddigwyddiad yw Gweithio Gyda'n Cymunedau, fel y gall pobl a natur ffynnu gyda'i gilydd. Yn ogystal â'r gweithgareddau ar y stondin y gobeithiwn fydd yn annog teuluoedd i ymweld â'r stondin, mae gennym hefyd ddigwyddiadau rhanddeiliaid allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys diweddariad gan ein tîm Rheoleiddio Rheoli Llygredd Amaethyddol a dathliad o'n prosiectau LIFE, y mae rhai ohonynt yn dirwyn i ben. Bydd staff o CNC hefyd yn bresennol ar stondinau partner gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Coedwig Genedlaethol Cymru a Forest Research.

### Mae natur yn gwella

55. Roedd penderfyniad CNC i gefnogi No Mow May yn gyfle i ddatblygu ymgyrch gyfathrebu ragweithiol yn amlygu ein hymrwymiad i gefnogi adferiad byd natur, a thynnu sylw at y gwaith hanfodol angenrheidiol yn ystod y cyfnod hwn. Helpodd hyn i liniaru unrhyw sylwadau negyddol bosibl gan bobl a fyddai'n gweld cydweithwyr CNC yn torri gwair ar argloddiau llifogydd a safleoedd eraill.
56. Buom yn hyrwyddo ein llwybrau a'n gwarchodfeydd natur, ac effaith gadarnhaol cerdded a bod yn yr awyr agored yn ystod wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, penwythnosau Gŵyl y Banc a Mis Cerdded Cenedlaethol ym mis Mai. Arweiniodd hyn at gyfweiliad ar fanteision cerdded yn y glaw a bod ym myd natur gyda'r meteorolegydd o Gymru, Derek Brockway, ar gyfer BBC News.
57. Roedd wythnos Rhywogaethau Estron Goresgynnol, y Gynhadledd Twyni Tywod LIFE, Diwrnod Mawndiroedd y Byd ac Wythnos Natur Cymru yn cynnig llwyfannau trwy gydol y cyfnod hwn i hyrwyddo'r ystod eang o brosiectau adfer natur sydd ar y gweill ledled Cymru. Roedd wythnos "Natur yn eich Cymuned" Natur am Byth hefyd yn arddangos y gwaith partneriaeth sy'n mynd rhagddo i gefnogi adferiad rhywogaethau ar lefel leol.

### **Mae cymunedau'n gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd**

58. Cyn cyflwyno'r Gwasanaeth Gwybodaeth Rhybuddion Llifogydd newydd yr haf hwn, rydym wedi parhau i gyfathrebu'n rheolaidd â phobl sydd wedi ymuno â'r system optio allan i amlygu'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth newydd. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sydd wedi cofrestru. Rydym hefyd wedi sicrhau presenoldeb yng nghyfarfodydd grŵp tactegol y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth sydd ar ddod i sicrhau bod aelodau'n ymwybodol o'r newidiadau sydd ar y gweill i'r Gwasanaeth Gwybodaeth Rhybuddion Llifogydd a'u bod yn gallu rhannu negeseuon yn lleol.
59. Fe wnaethom gefnogi Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r gwaith o gyhoeddi chwe choetir newydd i ymuno â Choedwig Genedlaethol Cymru, a rhannu negeseuon rhybuddio a hysbysu ynghylch effeithiau llifogydd posibl o ganlyniad i dywydd garw ym mis Mai.

### **Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf**

60. Mae ymdrech sylweddol yn parhau i reoli'r cyfathrebiadau ynghylch ein gweithgarwch rheoleiddio a gorfodi ar safle tirlenwi Wityhedge. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynwyd cylchlythyr wythnosol i danysgrifwyr, sy'n galluogi'r grŵp aml-asiantaeth i roi diweddariadau rheolaidd i'r gymuned. Gwnaethom hefyd gyflwyno briff i'r cyfryngau technegol i gynorthwyo newyddiadurwyr wrth iddynt adrodd ar y materion ar y safle, gwnaethom gefnogi Pennaeth Gweithrediadau'r De-orllewin i baratoi ar gyfer rhaglen *BBC Wales Investigates* a chymryd rhan ynddi, a gwnaethom weithio'n agos gyda'r tîm Cyfreithiol a'r tîmau Amgylchedd a Rheoleiddio ar draws De Orllewin Cymru a Chanol De Cymru i sicrhau bod

ymatebion i ymholiadau gan y cyfryngau yn ymwneud â chwmnïau gwastraff Dauson Environment Group yn gyson.

61. Buom yn gweithio gyda'r Awdurdod Glo i gyflwyno nodyn cefndirol i'r BBC i lywio eu hadroddiadau ar sesiwn y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar etifeddiaeth y pyllau metel. Roedd hyn yn sicrhau bod y BBC yn cael ei hysbysu'n briodol ac yn ymwybodol o gyfrifoldebau CNC wrth reoli'r mater hwn, ac arweiniodd at ohebu cytbwys.
62. Mae etifeddiaeth PCB (biffenyl polychlorinedig) hefyd yn parhau i dynnu sylw'r cyfryngau. Buom yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y busnes ac yn diweddarau partneriaid ar ein hymatebion i ymholiadau manwl gan BBC Radio 4 / BBC Sounds ar gyfer y gyfres *Buried* sydd ar ddod, sy'n edrych ar effaith biffenylau polychlorinedig ar yr amgylchedd ledled y DU.
63. Arweiniodd y tîm Cyfathrebu y cyfathrebiadau ynghylch ymweliad cyntaf Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig â phrosiectau CNC yn nalgylch Tywi ers iddo ddod i'r swydd. Rhoddwyd adnoddau hefyd i'r gwaith o gynllunio a pharatoi ar gyfer lansio Prosiect Gwy Uchaf yn ystod y cyfnod hwn, a gafodd ei effeithio wedyn gan y cyfnod cyn yr etholiad.
64. Mae'r tîm wedi bod yn rheoli'r ymateb cyfathrebu i ddigwyddiadau arwyddocaol yn ystod y cyfnod hwn, yn rheoli cyfryngau tactegol ynghylch y tân yn ffatri Synthite yng Ngogledd Cymru, ac yn gweithio gyda Dŵr Cymru a Chyngor Sir Bro Morgannwg i sicrhau eglurder wrth adrodd ar yr ymateb a'r ymchwiliad i'r gollyngiad a amheuir yng Ngwaith Trin Carthion Pen-y-bont, a arweiniodd at effeithiau llygredd ar afon Ogwr.
65. Gwnaethom hefyd barhau i hyrwyddo ein gwaith i fonitro a gwella ansawdd dŵr, gan hyrwyddo dechrau'r tymor dŵr ymdrochi a lansio'r ymgynghoriad ar Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd.

## Edrych i'r dyfodol

Dydd Llun 22 – Dydd Mercher 24 Gorffennaf – Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru

Dydd Mercher 7 Awst – Galwad Diweddarau'r Bwrdd

Dydd Iau 5 Medi – Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Dydd Mercher 11 Medi – Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid

Dydd Iau 12 Medi – Pwyllgor Cyllid

Dydd Mawrth 17 Medi – Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Dydd Mercher 25 / Dydd Iau 26 Medi – Cyfarfod Bwrdd CNC

Dydd Iau 3 Hydref – Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd

Dydd Mercher 9 Hydref – Pwyllgor Ystad Tir

## Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	17 Gorffennaf 2024
<b>Teitl y papur:</b>	Diweddariad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'r bwrdd
<b>Cyfeirnod y papur:</b>	24-07-B11
<b>Noddwyd y papur gan:</b>	Kath Palmer, cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
<b>Paratowyd y papur gan:</b>	Ysgrifenyddiaeth y bwrdd
<b>Cyflwynwyd y papur gan:</b>	Kath Palmer, cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
<b>Pwrpas y papur</b>	Gwybodaeth
<b>Crynodeb</b>	Rhoi diweddariad i'r bwrdd mewn perthynas â chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 4 Mehefin 2024.

## Cefndir

1. Mae'r diweddariad hwn i'r bwrdd mewn perthynas â chyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 4 Mehefin 2024. Mae papurau a chofnodion y cyfarfodydd hyn ar gael i aelodau'r bwrdd eu gweld ar Diligent.

## Diweddariad

### Archwilio Cymru

2. Roedd Archwilio Cymru wedi darparu'r cynllun archwilio manwl ar gyfer 2024 a thynnwyd sylw at bwyntiau allweddol. Roedd Archwilio Cymru yn gweithio tuag at gwblhau archwiliad eleni ar gyfer cyfarfod 17 Medi y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Byddai'n hysbysu'r Pennaeth Cyllid drwy gydol y broses.

### Diweddariad cyllid

3. Darparwyd diweddariad cyllid, a oedd yn cynnwys Adroddiad Cyfrifon Blynyddol a Thaliadau drafft 2023-24, a Chamau Gweithredu Tendr Sengl, Colledion a Thaliadau Arbennig. Nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei fod wedi cynnal archwiliad

dwfn i'r cyfrifon gyda'r tîm Cyllid ym mis Mai a oedd wedi codi nifer o ymholiadau. Cyflwynwyd y Cynllun Cyflawni Atal Twyll ar gyfer 2024-25 i'r pwyllgor hefyd.

## Adroddiad Blynyddol 2023-24

- Darparodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg awgrymiadau a chraffodd ar gynnwys drafft yr adroddiad blynyddol. Canmolwyd y tîm ar yr adroddiad hyd yn hyn a nodwyd y cynnydd parhaus. Byddai drafft yn cael ei gynhyrchu ar gyfer cyfarfod y bwrdd ym mis Gorffennaf.

## Rheoli risg

- Rhodddwyd adroddiad diweddar rheoli risg chwarterol i'r pwyllgor a nodwyd sesiwn ddiweddar y bwrdd ar y parodrwydd i dderbyn risg. Croesawyd cynnwys sicrwydd ar y Gofrestr Risgiau Strategol a thrafodwyd y risgiau. Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i ddiweddariadau gael eu darparu yn y cyfarfod nesaf, gan gynnwys y risgiau strategol drafft ar y tri amcan llesiant, ailystyried risg strategol saith, a chwblhau mwy ar y manylion risg eraill ynghyd â rhaglen o archwiliadau dwfn ar gyfer y risgiau strategol. Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd am weld y risgiau sefydliadol lefel uchel ar gyfer cyfarfod nesaf y pwyllgor.

## Diweddariad llywodraethu corfforaethol

- Hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg am ddatblygiadau llywodraethu corfforaethol a blaenoriaethau llywodraethu ar gyfer 2024-25. Croesawodd y pwyllgor y diweddariad a gofynnwyd i'r cod ymddygiad ddod gerbron y bwrdd. Byddai cynllun o waith llywodraethu yn cael ei gynhyrchu ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

## Adroddiad Sicrwydd Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth

- Croesawyd adroddiad yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a chydabuwyd ei ddefnyddioldeb. Trafodwyd yr adroddiad a diolchwyd i'r tîm am yr holl waith yn y maes hwn.

## Diweddariad sicrwydd chwarterol

- Hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg am y gwaith sicrwydd parhaus, gan gynnwys y strwythur llywodraethu a rhoi sicrwydd. Roedd dyhead am sicrwydd i ddarparu llwybrau llywodraethu clir ar gyfer penderfyniadau gyda dull symlach o weithredu a hefyd i hyn gael ei integreiddio â rheoli risg.

## Y tîm archwilio mewnol

- Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Adroddiad Chwarterol Archwilio Mewnol, Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, Adroddiad Blynyddol Chwythu'r Chwiban, a'r Adolygiad

Blynyddol o'r System Rheoli Amgylcheddol. Roedd Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn gymedrol a chydabuwyd bod CNC ar daith. Croesawodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y farn a chafwyd trafodaeth am ddyheadau ar gyfer y dyfodol.

10. Derbyniwyd a nodwyd pedwar adroddiad archwilio mewnol. Cynigiodd un barn anfoddfaol, un barn gymedrol, un barn sylweddol ac un barn gyfyngedig. Trafodwyd camau gweithredu hwyr a holwyd am y cynnydd.

### **Llywodraethu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**

11. Adolygodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Rhagolwg.

### **Sesiynau caeedig**

12. Cynhaliodd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg sesiynau caeedig ar wahân gydag Archwilio Cymru a'r Swyddog Cyfrifyddu.



## Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	17 Gorffennaf 2024
<b>Teitl y papur:</b>	Diweddariad Bwrdd y Pwyllgor Cyllid
<b>Cyfeirnod y papur:</b>	24-07-B12
<b>Noddwyd y papur gan:</b>	Helen Pittaway, cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
<b>Paratowyd y papur gan:</b>	Ysgrifenyddiaeth y bwrdd
<b>Cyflwynwyd y papur gan:</b>	Helen Pittaway, cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
<b>Pwrpas y papur</b>	Gwybodaeth
<b>Crynodeb</b>	Rhoi diweddariad ar y Pwyllgor Cyllid – 13 Mehefin

## Cefndir

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 13 Mehefin 2024. Mae papurau a chofnodion y cyfarfod ar gael i aelodau'r bwrdd eu gweld ar Diligent.

### Perfformiad ariannol a chymeradwyaethau

- Cyflwynwyd yr Adroddiad Perfformiad Ariannol interim, gan gynnwys y gyllideb agoriadol. Amlinellwyd arwyddion cynnar bod incwm a gwariant yn gyffredinol yn unol â'r proffil, ynghyd â thafliwybr 2024-25, arbedion cyflog, cynlluniau wrth gefn, gorraglennu, a risgiau a chyfleoedd allweddol.
- Gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol am y cwantwm o bwysau referniw a chyfalaf ar gyfer gadael Tŷ Cambria a thrafodwyd y materion gyda'r prosiect.
- Cymeradwyodd y Pwyllgor Cyllid dri chais adran 83 a thrafododd y cynllun plannu cydadferol, gan gynnwys y manteision i fioamrywiaeth. Rhoddwyd sicrwydd nad oedd torri coed mewn ardaloedd sensitif a'i fod yn bennaf mewn ardaloedd masnachol o'r ystad tir. Trafodwyd y costau i CNC ac incwm ar gyfer y tri chynnig.

#### Newidiadau i fecanweithiau ariannu

4. Crynhowyd tri mecanwaith ariannu newydd, gan gynnwys cytundebau partneriaeth, grantiau uniongyrchol, a chytundebau cydweithredu. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Cyllid gymeradwyo'r newidiadau i Rheoli ein Harian.
5. Gofynnodd y Pwyllgor Cyllid am wybodaeth ychwanegol ar y risgiau i bartïon i gontractau o fewn y fframwaith ac eglurwyd y broses sicrwydd, gan gynnwys craffu gan bartneriaid.

#### Diweddariad ar Gyllideb a Chynllun Busnes 2024-25

6. Rhoddwyd diweddariad llafar ar y comisiwn, gan gynnwys y dull o lywodraethu'r broses newid. Awgrymwyd y dylid cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Cyllid ym mis Gorffennaf fel rhan o'r broses honno. Trafodwyd rôl y Pwyllgor Cyllid yn y broses, ynghyd â lefel y manylder y byddai ei hangen ar y bwrdd er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus.

#### Cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr adran 20

7. Darparwyd gwybodaeth gefndir ac amlinelliad o faterion cytundebau adran 20 rhwng CNC a Dŵr Cymru. Roedd hyn yn cynnwys y cynnydd sylweddol mewn taliadau i CNC, taliadau echdynnu heb gyd-fynd â'r cynnydd, a'r anfonebau sy'n ddyledus.
8. Trafodwyd y taliadau hanesyddol a sut y lluniwyd y costau hynny. Holwyd sut roedd y costau'n cymharu â'r sefyllfa yn Lloegr a sut y byddai'r broses gyflafareddu yn cael ei chynnal pe bai angen. Nodwyd y trefniadau ar gyfer dalgylch trawsffiniol afon Dyfrdwy.
9. Trafododd y Pwyllgor Cyllid rôl CNC yn y cytundebau adran 20 a chymeradwyodd y dull a amlinellwyd yn y papur i archwilio'r anfonebau sydd heb eu talu a chychwyn ymgynghoriad codi tâl.

#### Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2023-24

10. Eglurwyd y perfformiad ariannol yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24 a sut yr oedd yn berthnasol i'r wybodaeth a gyflwynwyd yn Adroddiad Cyllid Bwrdd CNC. Amlygwyd elfen perfformiad Adroddiad Blynyddol 2023-24. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Cyllid adolygu a chymeradwyo'r adroddiad drafft a rhoi adborth erbyn 20 Mehefin.
11. Cododd y Pwyllgor Cyllid bryderon ynghylch y diffyg cydnabyddiaeth o'r heriau yr oedd CNC wedi'u hwynebu yn ystod 2023-24. Byddai naws yr adroddiad yn cael ei hadolygu ynghyd â gwaith i nodi unrhyw fylchau yn yr wybodaeth.

#### Diweddariad Grŵp Gweithredu Argymhellion yr Adolygiad Cyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd

12. Cyflwynwyd diweddariad gan Grŵp Gweithredu Argymhellion yr Adolygiad Rheoli Perygl Llifogydd. Roedd hyn yn cynnwys gwaith a gwblhawyd, y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion, y camau nesaf, a'r canlyniadau dymunol.

13. Holodd y Pwyllgor Cyllid sut y byddai'r tîm yn gweithredu ac yn ymgorffori'r offer a phrosesau presennol yn effeithiol, a sut roedd y tîm gweithredol yn cefnogi ac yn sicrhau bod staff yn deall pwysigrwydd amser, cost, ac ansawdd gwariant.
14. Bu'r pwyllgor yn trafod sut beth fyddai llwyddiant ar gyfer y rhaglen weithredu benodol hon a sut y byddai'r Pwyllgor Cyllid yn cael y sicrwydd bod y rhaglen hon yn cael ei gwreiddio.

#### Diweddariad CNC2030

15. Cyflwynwyd rhaglen CNC2030, gan gynnwys y weledigaeth a'r gyllideb, strwythur y rhaglen, trosolwg o'r pedair rhaglen a phrosiectau allweddol, y dyhead ar gyfer 2024-25, sut y byddai llwyddiant yn cael ei fonitro a'i adrodd, a beth fyddai ei angen i sicrhau llwyddiant.
16. Trafododd y pwyllgor y gwahaniaethau rhwng Trawsnewid Busnes ac CNC2030. Roedd y dull o ariannu systemau presennol fel rhan o'r trawsnewid yn cael ei adolygu. Awgrymwyd y dylid datblygu cyfathrebu ar y lansiad.

#### Unrhyw faterion eraill

17. Nododd y Pwyllgor Cyllid yr adroddiadau Chwarter 4 a ddarparwyd er gwybodaeth yn unig, a dyddiadau cyfarfodydd 2025 y pwyllgor.

## Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	17 Gorffennaf 2024
<b>Teitl y papur:</b>	Adroddiad y Bwrdd Rheoli Perygl Llifogydd
<b>Cyfeirnod y papur:</b>	24-07-B13
<b>Noddwyd y papur gan:</b>	Yr Athro Peter Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd
<b>Paratowyd y papur gan:</b>	Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
<b>Cyflwynwyd y papur gan:</b>	Yr Athro Peter Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd
<b>Diben y papur</b>	Er gwybodaeth
<b>Crynodeb</b>	Rhoi diweddariad ar y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer mis Gorffennaf.

## Cefndir

- Penderfynodd y cadeirydd anfon y papurau ar gyfer sylwadau/cymeradwyaeth trwy ohebiaeth oherwydd y cyfyngiadau amser sylweddol ar aelodau'r Bwrdd ar gyfer meysydd gwaith eraill. Mae'r canlynol yn grynodeb o'r papurau. Unwaith y bydd sylwadau wedi'u dychwelyd, bydd y cadeirydd a staff perthnasol yn adolygu'r canlyniadau, a'u cofnodi'n ffurfiol.
- I gael rhagor o fanylion, gall holl aelodau'r Bwrdd weld papurau'r pwyllgorau drwy'r porth Diligent.

## Diweddariad

### Adroddiad Diweddarau ar Reoli Perygl Llifogydd

- Cyflwynwyd adroddiad diweddarau a oedd yn amlygu meysydd gwaith allweddol i'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd er gwybodaeth. Roedd hyn yn cynnwys Rhagolwg Llifogydd tri mis cyfredol y Swyddfa Dywydd, adolygiad y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol o lifogydd, y Gwasanaeth Gwybodaeth Rhybuddion Llifogydd newydd, Adroddiad Blynyddol Rheoli Perygl Llifogydd a Nodyn Cyngor Technegol 15.

### Diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd

4. Rhoddwyd diweddariad ar sefyllfa bresennol Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd CNC ar gyfer 2024-25 a chynlluniau ar gyfer y dyfodol o fewn y cynllun tymor canolig. Roedd hyn yn cynnwys crynodeb o ddyraniad y gyllideb a'r sefyllfa bresennol a ragwelwyd.
5. Amlygwyd y risg, y parodrwydd i dderbyn risg a'r cyfleoedd ynghyd â'r cerrig milltir a'r canlyniadau posibl. Darparwyd diweddariadau prosiect allweddol, gan gynnwys Stryd Stephenson, Sandycroft, Porthmadog, y prosiect amnewid System Rhybuddion Llifogydd a'r Prosiect Telemetreg. Hefyd, darparwyd crynodeb o'r cymeradwyaethau sydd i ddod a thaenlen Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd.

### Papur Newid Stryd Stephenson

6. Anfonwyd papur newid Cynllun Llifogydd Stryd Stephenson i'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd i'w gymeradwyo oherwydd cost prosiect oes gyfan ddiwygiedig. Roedd y papur yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu a chefnidir y prosiect. Amlinellwyd y rhesymau dros y cynnydd mewn costau a'r rhesymau dros geisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd.
7. Byddai'r cynnydd yn cael ei ariannu gan gyllideb cyfalaf rheoli perygl llifogydd a byddai'n cael ei broffilio i fod yn fforddiadwy dros y blynyddoedd ariannol gyda'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a'r Pwyllgor Buddsoddi a Chyllid.
8. Nodwyd bod y Pwyllgor Cyllid eisoes wedi cymeradwyo'r cynnydd. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd roi sylwadau a sicrwydd ar y cynnig a nodi'r newidiadau a nodwyd i Gynllun Atal Llifogydd Stryd Stephenson.

### Achos Amlinellol Strategol Pwllheli

9. Cyflwynwyd yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer Cynllun Rheoli Llifogydd Pwllheli i'r pwyllgor. Cyflwynodd yr Achos Amlinellol Strategol asesiad cychwynnol o'r peryglon llifogydd i'r ardal a sefydlu achos dros newid. Gofynnwyd am gymeradwyaeth i symud y prosiect ymlaen i'r cam nesaf (Achos Busnes Amlinellol) lle byddai asesiadau manylach yn cael eu cynnal i nodi hyfywedd yr opsiwn a ffefrir ar gyfer buddsoddi, a rhoi hyder ynddo.

## Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	17 Gorffennaf 2024
Teitl y papur:	Diweddariad y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid
Cyfeirnod y papur:	24-07-B14
Noddwyd y papur gan:	Mark McKenna, cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid
Paratowyd y papur gan:	Ysgrifenyddiaeth y bwrdd
Cyflwynwyd y papur gan:	Mark McKenna, cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid
Pwrpas y papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Rhoi diweddariad i'r bwrdd mewn perthynas â chyfarfod 6 Mehefin 2024 y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid.

## Cefndir

- Mae'r diweddariad ysgrifenedig hwn i'r bwrdd yn ymwneud â chyfarfod y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid ar 6 Mehefin 2024. Mae aelodau'r bwrdd yn gallu cyrchu holl bapurau a chofnodion y pwyllgor drwy'r porth Diligent.

## Diweddariad llafar ar risgiau a materion cyfredol

- Rhoddwyd diweddariadau llafar i'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid ar risgiau a materion cyfredol. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygiad Corfforaethol y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid ar eitemau megis: y berthynas barhaus dda gyda'r undebau llafur, y rheolaethau recriwtio parhaus, a'r System Rheoli Dysgu newydd.
- Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnach y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid ar: y risgiau a chyfleoedd presennol, y materion sy'n dominyddu'r tîm cyfathrebu, llwyddiant digwyddiad y Senedd ar Ddiwrnod Amgylchedd y Byd a'r disgwyliadau ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol, a'r Uned Gohebu Ganolog, sydd bellach yn weithredol.

## Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch – Adroddiad Blynyddol

4. Croesawodd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yr Adroddiad Blynyddol ar Lesiant, Iechyd a Diogelwch a'i drafod. Cynigiodd y pwyllgor awgrymiadau ar gyfer pethau i'w cynnwys yn yr adroddiad. Rhoddwyd sicrwydd ynghylch y broses gadarn o reoli contractau. Byddai aelodau'r bwrdd yn derbyn gwahoddiadau calendr ar gyfer sesiynau ymwybyddiaeth am straen y staff. Cymeradwyodd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yr Adroddiad Blynyddol ar Lesiant, Iechyd a Diogelwch yn barod i'w gymeradwyo gan y bwrdd.

## Cynllun Rhanddeiliaid Gwleidyddol Blynyddol, gan gynnwys canfyddiadau'r Archwiliad Canfyddiadau

5. Cyflwynwyd canlyniadau'r Archwiliad Canfyddiadau blynyddol i'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid a nododd yr ymatebion cadarnhaol, er mai gan sampl cymharol fach oedd hynny, a thrafodwyd sut y gellid datblygu'r archwiliad a'i ddefnyddio yn yr hinsawdd wleidyddol bresennol. Byddai'r arolwg nesaf yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o rôl CNC o amgylch natur ac Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025.

## Adroddiad Cyflogau

6. Nododd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid fod adborth eisoes wedi'i ddarparu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Cymeradwyodd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yr Adroddiad Cyflogau.

## Y Datganiad Blynyddol ar Bolisiau Tâl

7. Croesawodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid y Datganiad Blynyddol ar Bolisiau Tâl.

## Y Datganiad Blynyddol ar Gaethwasiaeth Fodern

8. Awgrymodd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid y dylid cynnwys cyfeiriad yn natganiad y flwyddyn nesaf at y buddion a wireddwyd ers dechrau'r datganiad. Cymeradwyodd y pwyllgor y Datganiad Blynyddol ar Gaethwasiaeth Fodern.

## Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg

9. Croesawodd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yr adroddiad manwl a'r uchelgais i wneud mwy. Cynigiodd awgrym ar derminoleg a rhoddwyd sicrwydd bod Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried CNC fel esiampl. Byddai aelodau'r bwrdd yn cael eu gwahodd i unrhyw sesiynau yn y dyfodol ar gadeirio cyfarfodydd yn ddwyieithog.

10. Cymeradwyodd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg i'w gyhoeddi.

## CNC2030

11. Rhoddwyd trosolwg i'r pwyllgor o'r rhaglenni a'r prosiectau o fewn Strwythur Rhaglen CNC2030 a chrosawodd y dangosfwrdd trosfwaol a fyddai'n rhoi sicrwydd i'r bwrdd. Bu'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yn trafod cyflwyno seilwaith cerbydau trydan yn gyffredinol.

## Llunio cynllun adnoddau

12. Croesawodd y pwyllgor y pwyslais ar amrywiaeth a therminoleg a naws y cynllun adnoddau drafft a darparodd adborth. Nodwyd y cyfleoedd cyffrous y gallai CNC eu darparu ar gyfer profiad amgylcheddol cyflawn.

## Eitemau er gwybodaeth

13. Croesawodd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid yr Adroddiad Chwarterol ar Gyfathrebu, y Diweddariad Gwella Gwasanaeth a'r Wybodaeth Rheoli Pobl.



# Papur Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	17 Gorffennaf 2024
<b>Teitl y papur:</b>	Adroddiad Perfformiad Cyllid
<b>Cyfeirnod y papur:</b>	24-07-B15
<b>Noddwyd y papur gan:</b>	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
<b>Paratowyd y papur gan:</b>	Rob Bell, Pennaeth Cyllid; Mark Collins, Rheolwr Cyllid Busnes
<b>Cyflwynwyd y papur gan:</b>	Rob Bell, Pennaeth Cyllid
<b>Diben y papur:</b>	Cymeradwyo (newid yn y rhagolwg) / Trafodaeth (perfformiad ariannol)
<b>Crynodeb</b>	<p>Cymeradwyo:</p> <p>Newid yn y rhagolwg diweddaraf o £267.9 miliwn i'r £268.9 miliwn a ragwelir.</p> <p>Craffu ar:</p> <p>Perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Mai 2024.</p>

## Cefndir

1. Mae'r Adroddiad Perfformiad Cyllid yn rhoi manylion am gynnydd ar draws y gwahanol fathau o incwm, gwariant a rhaglenni. Mae Atodiad A yn crynhoi'r negeseuon allweddol mewn perthynas â:

- Newid yn y rhagolwg o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol.
- Perfformiad hyd at ddiwedd mis Mai 2024, o gymharu â'r gyllideb wreiddiol.

## Risgiau a chyfleoedd

- Mae gennym risg yng Nghofrestr Risg Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer 'gwariant yn ystod y flwyddyn'. Mae hyn hefyd yn cysylltu â'r risg strategol "Methiant i gyflawni sefydlogrwydd ariannol". Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, mae risgiau gorwario wedi'u lliniaru trwy gamau a gymerwyd gan y Tîm Gweithredol gan gynnwys rheolaethau ar recriwtio a'r ymarfer comisiynu sydd ar y gweill ar hyn o bryd.
- Mae'r goblygiadau ehangach fel a ganlyn:
  - Cyllid:** Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â pherfformiad ariannol CNC. Mae gennym risg yng Nghofrestr Risg y Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.
  - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** Mae pob elfen o'r gyllideb yn cyfrannu at un neu lawer o'n hamcanion llesiant.

## Y camau nesaf

- Bydd y Tîm Gweithredol yn parhau i fonitro'r prif risgiau o fewn y gyllideb.
- Cynhyrchir yr adroddiad hwn bob dau fis ar gyfer y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol.

## Argymhelliad

- Y Bwrdd i gymeradwyo newidiadau i'r rhagolwg diweddaraf, o £267.9 miliwn i £268.9 miliwn.
- Y Bwrdd i graffu ar y perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Mai 2024.

## Mynegai o atodiadau

Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Ariannol




**NRW Board - 17 July 2024**

**Financial Performance Report – May 2024**


## Content and Key Messages

Update will cover:	Messages:
<p>1. Update on the latest forecast changes as at May 2024 compared to the opening budget.</p>	<p>1. The overall budget increased by £1m, mainly due to changes in commercial income (£0.4m), external funding (£0.3m), capital grant funding (£0.1m) and use of charge reserves (£0.3m). This has funded additional work within the Energy Delivery team in CCC and contingencies (commercial income), Coal Tip Safety and Afan Bike Trail work &amp; help manage International Waste Shipments (external funding &amp; capital grant), with charge reserves funding additional charge posts.</p>
<p>2. Financial Performance as at May 2024.</p>	<p>2. Expenditure at the end of May equates to £33.1m against a planned spend of £34m, an under spend to date of £0.9m. This is mainly due to under spend on non staff costs and capital projects. The non staff element is linked to an under spend on land stewardship activities within Operations (£0.8m), offset by overspend within EPP across Knowledge &amp; Evidence (£0.2m) and Flood &amp; Incident Management Teams (£0.2m). The capital position relates to under spend within the respective NaCE (£0.2m) &amp; NRW 2030 (£0.3m) programmes. The income position is slightly ahead of profile mainly due to additional commercial timber income (£0.3m).</p>
<p>3. Update on the plan to balance in year budgetary pressures.</p>	<p>3. There is a page in the report where we set out what contingencies and over-programming we are holding. There are several contingencies - pay award, general (for potential redundancies), precautionary (for re-forecast of energy income and corporate costs in relation to whether WG fund Coal Authority directly in future to undertake metal mines remediation work). We also hold over-programming allocations - central (prudently set at £1m, previous years set at £3m+) and in the main programmes (Flood, NaCE and NRW2030). We have taken into consideration the lessons learnt from the Local Partnerships review in managing over-programming within programmes.</p>
<p>4. Endorse change in forecast since the original budget was agreed - from £267.9m to £268.9m.</p>	<p>4. The main risks to spending within our budget is achieving our salary savings target, the lease dispute at Ty Cambria, the potential outcome from the IR35 situation and ongoing legal cases. There is mitigation in place for all these risks. The paper comments in more detail on the management of the salary budget, we are also in discussion with WG about agreeing a plan for any potential IR35 liability, that would see it spread over a number of years and a paper was recently considered by the Finance Committee in respect to Ty Cambria. No response has been received from the Landlord, with regards the proposed offer. We will therefore need to consider alternative options with Finance Committee. We have also set our over-programming assumption at a very prudent level, so there maybe more scope to take a little more risk with the budget. There is also a modest contingency budget.</p>
<p>5. An update on the potential risks &amp; opportunities.</p>	<p>5. The opening staff budget deficit stood at £9.3m. The current recruitment controls has generated "core" post savings at the end of May of £1.1m, reducing the deficit to £8.2m. This will reduce further as we go through the year, however, current projections show an expected deficit of £1.4m against the £9.3m target at year end, which will need to be funded from the contingency budget (£2.2m) or other in year savings. Whilst we hold a contingencies budget, this is also a source of funding for redundancies.</p>
<p>6. A summary (interim) report was presented to the Executive Team and Finance Committee on 11 and 13 June 2024 respectively.</p>	

# Financial Performance – Income Forecast



## Financial Performance – Expenditure Forecast



### Staff

Overall staff budgets have stayed broadly in line with the opening position. Staff budgets have been reduced by £1.1m, reducing the salary savings target from £9.3m to £8.2m. Both these budgets are within the 'staff' category, so there is no net impact on the graph.

There are a number of additional movements, charge reserves funded posts (£0.3m), secondee costs (£0.2m) and training (£0.1m), which is offset by the movement from staff to non staff for Trydan energy delivery work (£0.6m). Because we recharge staff costs in relation to surrenderable income to a specific cost centre code, it is categorised within non staff costs.

### Non Staff

Non staff expenditure has increased by £1.0m, £0.7m due to the movement between expenditure categories (£0.6m from staff linked to the Trydan energy delivery work and £0.1m from revenue projects linked to grant work). The remaining £0.3m predominantly reflects an increase in retainable energy income.

### Revenue Projects

Minor revenue project reduction (£0.1m) due to the realignment of grant funding to non staff costs.

### Capital Projects

Capital projects have increased by £0.2m reflecting the additional external funding for Afan Bike Trail project.

## Financial Performance - Income

INCOME	Actual	Approved Forecast	Variance	Approved Forecast	Remaining Budget	Commentary
by Account Type	YTD £m	YTD £m	YTD £m	FY £m	FY %	
Charges	29.2	29.1	0.1	44.9	35%	Income raised in line with profile.
Commercial	10.9	10.6	0.3	53.0	80%	Timber sales are ahead of profile in May following a strong start to the year, however the commercial team feel that keeping the forecast at £31m would be prudent at present as historically there has been a slump in dispatches in the summer. The forecast will be reviewed once the outcome of the July esales is known. We will then be in a better position to more accurately predict the timber sales for the year.
European & external	0.3	0.4	-0.1	8.9	96%	The current variance is linked to WG grants. No risks have been identified to the end of year outturn and these variances will be assessed over the next two months, with profiles amended as appropriate.
Grant in aid	20.1	20.1	0.0	160.3	87%	Income received in line with profile.
